## Aberystwyth University

# Brawdgarwch Cenedlgarol

Charnell-White, Cathryn

*Published in:*
Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion | Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion

*Publication date:*
2020

*Citation for published version (APA):*
Charnell-White, C. (2020). Brawdgarwch Cenedlgarol: Difyrrwch Llenyddol Cymdeithasau Cymry Llundeinig y Ddeunawfed Ganrif. *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion | Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, *25*, 64-94. https://www.cymmrodorion.org/the-transactions/brawdgarwch-cenedlgarol-difyrrwch-llenyddol-cymdeithasau-cymry-llundeinig-y-ddeunawfed-ganrif/

**Document License**
CC BY-NC

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 30. Aug. 2021

# BRAWDGARWCH CENEDLGAROL: DIFYRRWCH LLENYDDOL CYMDEITHASAU CYMRY LLUNDEINIG Y DDEUNAWFED GANRIF[1]

Cathryn A. Charnell-White

*Abstract*

London's eighteenth-century Welsh societies – the Cymmrodorion and the Gwyneddigion Societies in particular – have held the fascination of generations of academics and readers. The societies' role as architects of Welsh nationhood is an unassailable strand in the scholarly narratives about them, as is their reputation for conviviality. The songs and prose squibs that society members wrote and performed for one another have received little scholarly attention and are, therefore, less well known than the societies' literary and antiquarian publications. A celebration of the homosocial excesses of lewdness and drinking, this body of literature is incompatible incompatible with the established narrative of the societies' Enlightenment beginnings and lofty status as benefactors of Wales and the Welsh language, yet it includes themes and intertextual references that speak to a tight intersection between the convivial and antiquarian activities of London's Welsh Societies.

This essay gives due recognition to the convivial associational literature of the 1790s. It defines and expands the extant canon and establishes a Welsh-language conceptual vocabulary for it: 'cymdeithasaidd' (associational), 'cymdeithasgarwch' (sociability) and 'homogymdeithasaidd' (homosociability). By drawing on the manuscripts of a forgotten writer, Edward Charles (Siamas Wynedd, 1757–1828), the essay throws new light on individual texts and authors, and includes edited excerpts from a broad range of texts from the associational canon. The essay makes a case for the canon's intrinsic literary merit and focuses on its associational culture and fraternal and patriotic identity – the way in which it performs what Murray Pittock has termed 'fratriotism'. In this, the essay argues that the societies' inward-looking associational culture is as important and as legitimate an expression of Welsh identity as their more outward-facing antiquarian achievements.

[1] Traddodwyd fersiwn lafar o'r ysgrif hon gerbron Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion 10 Mehefin 2015. Carwn ddiolch i Bethan M. Jenkins, Ffion M. Jones, a Geraint Phillips am eu sylwadau wrth baratoi'r ysgrif i'w chyhoeddi. Yn yr enghreifftiau sy'n dilyn, golygwyd y testunau gwreiddiol yn ysgafn er hwylustod i ddarllenwyr cyfoes: moderneiddiwyd a chysonwyd orgraff ac atalnodi'r testunau.

Yr Hen Frythoniaid, Anrhydeddus Gymmrodorion, Gwyneddigion a Chymreigyddion. Y mae cymdeithasau amrywiol Cymry Llundain y ddeunawfed ganrif, gyda'u henwau atgofus a'u Cymreictod hyderus, wedi cynnal diddordeb cenedlaethau o ddarllenwyr ac ysgolheigion. Yr hyn sy'n cyfrif am apêl hirhoedlog y cymdeithasau yw eu pwysigrwydd – a'r Cymmrodorion a'r Gwyneddigion yn arbennig – i'r hunanddelwedd gadarnhaol a fwynhâi'r Cymry yn negawdau olaf y ddeunawfed ganrif drwy'r mudiad hynafiaethol a'r eisteddfod adfywiedig. Ymfalchïai'r Cymry oddi cartref yn eu Cymreictod, ac y mae'r enwau a ddewiswyd ganddynt ar gyfer eu cymdeithasau yn gwreiddio eu cymdeithasgarwch Llundeinig yn ddwfn yn nhir Cymru ac mewn ymwybyddiaeth hanesyddol o fri'r Gymraeg. Yn ei dro, rhoes eu pwyslais ar ddathlu Cymreictod hwb i hunanhyder awduron a llengarwyr yn yr hen wlad, a gwnaeth eu hymrwymiad Ymoleuedig i rym y wasg argraffu lawer i hybu'r Gymraeg a'i diwylliant ym mhrif ffrwd yr Ymoleuedigaeth yn Lloegr ac Ewrop.

Adeiladwyd corff sylweddol o ysgolheictod ar gorn gohebiaeth a llawysgrifau'r Cymry Llundeinig sy'n ffenestr fyw i gydberthynas aelodau blaenllaw'r cymdeithasau amrywiol â'i gilydd: Lewis Morris (1701–65) a'i frodyr Richard a William,[2] Owen Jones (Owain Myfyr; 1741–1814),[3] David Samwell (Dafydd Ddu Feddyg; 1751–98),[4] William Owen Pughe (Gwilym Dawel, Idrison; 1759–1835),[5] Edward Jones (Bardd y Brenin; 1752–1824),[6] ac Edward Williams (Iolo Morgannwg; 1747–1826).[7] Diolch i'r corff hwn o lyfrau, erthyglau, a thestunau golygedig y mae hanesyddiaeth a llwyddiannau'r cymdeithasau yn gyfarwydd ddigon. Rhoddwyd sylw dyledus i waddol diwylliannol y cymdeithasau: eu cyfraniad i dwf ysgolheictod Cymraeg a Chymreig;[8] barddoniaeth a rhyddiaith

2 Yn ogystal â'r ohebiaeth a gyhoeddwyd gan J. H. Davies (1907–09) a Hugh Owen (1947; 1949), ceir cofiannau safonol i'r pedwar brawd gan Dafydd Wyn Wiliam: *Cofiant Lewis Morris 1700/1–42* (Llangefni, 1997); *Cofiant William Morris (1705–63)* (Llangefni, 1995); *Cofiant Richard Morris (1702/3–79)* (Llangefni, 1999); *Cofiant Lewis Morris 1742–65* (Llangefni, 2001); *Cofiant Siôn Morris (1713–40)* (Llangefni, 2003). Gweler hefyd gofiant llenyddol Alun R. Jones, *Lewis Morris* (Caerdydd, 2004).

3 Geraint Phillips, *Dyn Heb Ei Gyffelyb yn y Byd: Owain Myfyr a'i Gysylltiadau Llenyddol* (Caerdydd, 2010).

4 E. G. Bowen, *David Samwell (Dafydd Ddu Feddyg) 1751–1798* (Caerdydd, 1994); Martin Fitzpatrick, 'The "Cultivated Understanding" and Chaotic Genius of David Samwell', yn *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg*, gol. Geraint H. Jenkins (Cardiff, 2005), tt. 383–402; *The Death of Captain Cook and Other Writings by David Samwell*, gol. M. Fitzpatrick, N. Thomas a J. Newell (Cardiff, 2007).

5 Glenda Carr, *William Owen Pughe* (Caerdydd, 1983); Carr, 'An Uneasy Partnership: Iolo Morganwg and William Owen Pughe', yn Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius*, tt. 443–600.

6 Tecwyn Ellis, *Edward Jones Bardd y Brenin 1752–1824* (Caerdydd, 1957).

7 Cathryn A. Charnell-White, *Bardic Circles: National, Regional and Personal Identity in the Bardic Vision of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2007); Mary-Ann Constantine, *The Truth against the World: Iolo Morganwg and Romantic Forgery* (Cardiff, 2007); Geraint H. Jenkins, *Bard of Liberty: The Political Radicalism of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2012); Ffion M. Jones, *'The Bard is a Very Singular Character': Iolo Morganwg, Marginalia and Print Culture* (Cardiff, 2010); Marion Löffler, *The Literary and Historical Legacy of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2007).

8 G. J. Williams, 'Rhai Agweddau ar Hanes Llenyddiaeth ac Ysgolheictod Cymraeg yn y Ddeunawfed Ganrif, gan gynnwys Hanes yr Eisteddfod a'r Orsedd hyd at 1858', yn *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg*, gol. Aneirin Lewis (Caerdydd, 1969), tt. 82–147.

unigolion fel Lewis Morris, Goronwy Owen, ac Edward Williams;[9] ynghyd â'u hetifeddiaeth feirniadol a chreadigol ar ffurf yr awdlau eisteddfodol uchel-ael.[10] Ymhellach, y mae cenedlaetholdeb diwylliannol cymdeithasau'r Cymry Llundeinig, ynghyd â'r modd y cyfranasant at siapio cenedl Gymreig y dychymyg, yn llinyn arian drwy'r naratifau beirniadol hyn.[11]

Nid oes amheuaeth, felly, o statws y cymdeithasau a'u haelodau fel cymwynaswyr i'r genedl, a hynny er gwaethaf ochr lawen a meddwol eu cymdeithasgarwch. Yn wir, ceir yr argraff yr ystyrid brawdgarwch hwyliog y Cymry Llundeinig yn wedd anffodus ar eu gweithgarwch, a diau mai hyn sy'n cyfrif am y diffyg sylw a gafodd diwylliant cymdeithasaidd y Cymmrodorion a'r Gwyneddigion yn y naratif ysgolheigaidd amdanynt. Y mae'r llenyddiaeth a ddathlai rysedd homogymdeithasaidd – maswedd a meddwdod – yn anghymarus â'r naratif ynghylch gwreiddiau Ymoleuedig y cymdeithasau. Yr oedd hyn i'w weld ar y pryd; er enghraifft, poerodd Edward Williams ei sen ar y Cymmrodorion gan ofyn yn 1784, 'beth y mae'r Cymmrodorion yn ei gylch? Ai ydynt yn cyfarfod i rywbeth amgen nag i fwyta ac i yfed a syfrdanu?',[12] ac oherwydd bod y profiad cymdeithasaidd a dinesig yn ddieithr iddo, ni welai Thomas Edwards (Twm o'r Nant; 1739–1810) fawr o lewyrch ar lenyddiaeth y Gwyneddigion: 'John Glan-y-gors and Edward Charles were quite bad enough to satisfy London.'[13] Y mae cyfrol William Davies Leathart yn garn i'r naratif llywodraethol hwn, a dilynwyd ef gan haneswyr diweddarach. Dolen gyswllt fyw â rhai o aelodau cyntaf y Gwyneddigion oedd Leathart, a phan gyhoeddwyd ei gyfrol yn 1831, er iddo gydnabod ciniawau blynyddol a digwyddiadau Gŵyl Ddewi'r gymdeithas, dyrchafodd gyfraniad diwylliannol ac eisteddfodol y Gwyneddigion ar draul eu hochr lawen.[14] Parhawyd â'r naratif hwn yn nhrosolwg awdurdodol R. T. Jenkins a Helen Ramage. Cydnabu'r ddau fod cyhoeddiadau'r Cymmrodorion yn siomedig yng ngoleuni'r cynlluniau hynafiaethol uchelgeisiol a gyhoeddwyd yn *Gosodedigaethau Anrhydeddus*

9 Mari Elin Jones, 'Testun ac Astudiaeth Feirniadol o Farddoniaeth Lewis Morris 1700/1–1765' (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Aberystwyth, 2004); *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, gol. P. J. Donovan (Caerdydd, 1980); Alan Llwyd, *Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu: Cofiant Goronwy Owen, 1723–1769* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997).

10 Williams, 'Rhai agweddau ar Hanes Llenyddiaeth'; E. G. Millward, *Yr Arwrgerdd Gymraeg: Ei Thwf a'i Thranc* (Caerdydd, 1998).

11 Sarah Prescott, *Bards and Britons: Eighteenth-Century Writing from Wales* (Cardiff, 2008); Charnell-White, 'Networking the Nation: The Bardic and Correspondence Networks of Wales and London in the 1790s', yn *'Footsteps of Liberty & Revolt': Essays on Wales and the French Revolution*, gol. Mary-Ann Constantine a Dafydd Johnston (Cardiff, 2013), tt. 143–67; Phillips, *Dyn Heb Ei Gyffelyb yn y Byd*; Bethan M. Jenkins, *Between Wales and England: Anglophone Welsh Writing of the Eighteenth Century* (Cardiff, 2017).

12 'Edward Williams at John Edwards (13 Medi 1784)', Llawysgrif LlGC 13087E, t. 344; *The Correspondence of Iolo Morganwg*, gol. Geraint H. Jenkins, Ffion M. Jones a David Ceri Jones, 3 cyf. (Cardiff, 2007), cyf. 1, t. 91. Defnyddir y byrfodd *CIM* ar gyfer y tair cyfrol o hyn allan.

13 'Thomas Edwards at Owen Jones, 1799'. Dyfynnir yn R. T. Jenkins a Helen Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion and of the Gwyneddigion and Cymreigyddion Societies (1751–1951)* (London, 1951), t. 109.

14 William Davies Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London, 1831), tt. 9, 14-23.

*Gymdeithas y Cymmrodorion* (1755) ac, er canmol llwyddiannau diymwad y Gwyneddigion, braidd yn ddibris yw eu hagwedd at y 'merriment and leg-pulling and nonsense in general'.[15] Sylw bylchog, felly, a gafodd y llenyddiaeth a luniwyd gan aelodau'r cymdeithasau ar gyfer mwyniant eu cyd-aelodau.[16] O droi at lenyddiaeth gymdeithasaidd y Cymry Llundeinig yn yr ysgrif hon, gwneir dau beth. Yn gyntaf, dangosir bod gwerth cynhenid i'r llenyddiaeth honno ac, yn ail, o ddadansoddi brawdgarwch cenedlgarol y llenyddiaeth, troir ffocws y naratif beirniadol cyfarwydd, gan ddangos bod cenedlgarwch cymdeithasaidd a mewnddrychol y cymdeithasau lawn bwysiced â'r cenedlgarwch a edrychai allan ac a gynrychiolir gan y gweithgarwch diwylliannol cydnabyddedig. Rhoddir sylw penodol i'r 1790au, gan daflu goleuni newydd ar y canon llenyddol cymdeithasaidd a thynnu yn helaeth ar lawysgrifau un o aelodau anghofiedig Cymdeithas y Gwyneddigion, sef Edward Charles (Siamas Wynedd; 1757–1828). Rhoddir sylw arbennig i'r cyfnod hwn am fod y deunydd cyfoethog a gysylltir ag Edward Charles a'i gyfeillion yn cynrychioli uchafbwynt yn hanes a phoblogrwydd cymdeithasau Cymry Llundain y ddeunawfed ganrif, yn ogystal ag uchafbwynt eu cymdeithasgarwch.

O ran geirfa gysyniadol, defnyddir y termau 'cymdeithasol' (S. *social, sociable*) a 'chymdeithasaidd' (S. *associational*) wrth drafod y llenyddiaeth ddifyrrus hon a'r diwylliant a esgorodd arni. Gellid dadlau, mae'n siŵr, fod 'cymdeithasaidd' yn taro'n chwithig yn y Gymraeg. Eto i gyd, y mae'n air angenrheidiol yn y cyswllt hwn er mwyn gwahaniaethu rhwng cysyniadau tra gwahanol i'w gilydd. Y mae'r naill, 'cymdeithasol', er y gall olygu ymddygiad o fewn cymdeithas benodol neu glwb, yn gyffredinol ei ystyr ac yn cyfeirio at gymdeithas yn ehangach.[17] Y mae'r llall, 'cymdeithasaidd' a 'chymdeithasedd', yn cyfeirio'n benodol at ddiwylliant a rhwymau cymdeithasol clwb neu gymdeithas, ac at ymwneud aelodau clwb neu gymdeithas â'i gilydd.[18] Ymhellach, defnyddir 'cymdeithasgarwch' i gyfleu'r term Saesneg *sociability*,[19] sef patrwm o ymddygiad cymdeithasol a chyhoeddus a gyfunai amryw rinweddau fel ysbrydoledd, moesgarwch, caredigrwydd a hynawsedd.[20] Y mae'r cysyniadau hyn yn dwyn perthynas agos â'i gilydd oherwydd,

15 Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t. 116; Emrys Jones, 'The Age of Societies', yn *The Welsh in London 1500–2000* (Cardiff, 2001), t. 74.

16 Cyhoeddwyd testunau golygedig John Jones (Jac Glan-y-gors) a David Samwell (Dafydd Ddu Feddyg): *Cerddi Jac Glan-y-gors*, gol. E. G. Millward (Barddas, 2003); Marion Löffler, 'Cerddi Newydd gan John Jones, "Jac Glan-y-Gors"', *Llên Cymru*, 33 (2010), 143–50; *The Death of Captain Cook and other Writings by David Samwell*, gol. M. Fitzpatrick et al. (Cardiff, 2007).

17 *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 4 cyf. (Caerdydd, 1950–2002), cyf. 1, t. 766: 'Yn perthyn i gymdeithas, yn ymwneud â pherthynas dyn â'i gyd-ddyn; parod i gymdeithasu.' Defnyddir y byrfodd *GPC* o hyn allan.

18 Nid yw 'cymdeithasaidd' yn ymddangos yn *GPC*, ond diddorol yw nodi'r ffurf 'cymdeithasfaol' mewn cyd-destun crefyddol: 'Yn perthyn i gymdeithasfa neu sasiwn cymanfaol' (1840), *GPC*, cyf. 1, t. 756.

19 *GPC*, cyf. 1, t. 756.

20 Gillian Russell a Clara Tuite, *Romantic Sociability: Social Networks and Literary Culture in Britain 1770–1840* (Cambridge: Cambridge University Press, 2002); *British Sociability in the Long Eighteenth Century: Challenging the Anglo-French Connection*, gol. Valérie Capdeville ac Alain Kerkervé (Woodbridge: Boydell and Brewer, 2019).

erbyn canol y ddeunawfed ganrif, un o nodweddion amgen cymdeithasgarwch cyhoeddus ym Mhrydain Fawr oedd y diwylliant cymdeithasaidd a berthynai i glybiau a chymdeithasau.[21] Yr oedd diwylliant cymdeithasaidd hefyd yn digwydd mewn gofod trwyadl wrywaidd: 'an assembly of good fellows meeting under certain conditions' oedd digrifiad Samuel Johnson o glwb neu gymdeithas.[22] Y mae 'homogymdeithasedd' (S. *homosociability*), felly, yn gysyniad pwysig wrth olrhain natur gwrywdod a chymdeithasedd yn y ddeunawfed ganrif. Er bod sawl ffurf ar wrywdod i'w cael yn ystod y cyfnod modern cynnar,[23] fel y dangosodd Philip Carter a Michèle Cohen, adeiladwyd hunaniaeth ryweddol wrywaidd drwy ymwneud, nid yn unig â menywod, ond hefyd â dynion eraill ac â chymdeithas gwrtais gyfoes.[24] Gan fod cwmni diddan cymdeithasau'r Cymry Llundain yn adlewyrchu'r byd gwrywaidd hwn, defnyddir y term 'homogymdeithasol' (S. *homosocial*) i gyfleu'r ffaith mai dynion oedd awduron y llenyddiaeth gymdeithasaidd, a dynion hefyd oedd gwrthrychau eu llenyddiaeth ynghyd â chynulleidfa ddealledig y llenyddiaeth honno.

*Diwylliant cymdeithasaidd y Cymry Llundeinig*

Beth, felly, am y cymdeithasau a esgorodd ar yr angen i wahaniaethu rhwng 'cymdeithasol' a 'chymdeithasaidd' ac a esgorodd hefyd ar y llenyddiaeth gymdeithasaidd a homogymdeithasaidd sy'n garn i'r ysgrif hon? Ffenomen Ymoleuedig oedd yr amrywiol gymdeithasau a chlybiau a fu'n cyfoethogi bywyd diwylliannol Prydain a gorllewin Ewrop yn ystod y ddeunawed ganrif, sef Oes y Cymdeithasau. Perthynai clybiau a chymdeithasau i'r diwylliant llythyru a'r sffêr gyhoeddus Habermasaidd ac, felly, yr oeddent yn cynrychioli rhwydweithiau allweddol ar gyfer trosglwyddo gwerthoedd a syniadau'r Ymoleuedigaeth, wrth ddemocrateiddio dysg a diwylliant, wrth gynnal cymdeithasgarwch, ynghyd â ffurfio hunaniaethau cymdeithasol, lleol a chenedlaethol. O droi at Lundain, y mae gwaith Peter Clark, ac eraill, yn dangos mai ffenomen ddinesig oedd cymdeithasgarwch, nid yn unig yn y brifddinas, ond hefyd mewn canolfannau dinesig eraill fel Birmingham, Norwich a Chaeredin ym Mhrydain, a Dulyn a

21 Peter Clark, *British Clubs and Societies 1580–1800: The Origins of an Associational World* (Oxford: Oxford University Press, 2000; ailagraffwyd 2011), t. 88.

22 Dyfynnir yn R. J. Allen, *The Clubs of Augustan London* (Cambridge, MA, 1967), t. 6. Ar gyfer homogymdeithasedd fel cysyniad, gweler Clark, *British Clubs and Societies*, t. 5, a George Rousseau, '"Homoplatonic, Homodepressed, Homomorbid": Some Further Genealogies of Same-Sex Attraction in Western Civilization', yn *Love, Sex, Intimacy and Friendship between Men, 1550–1800*, gol. Katherine O'Donnell a Michael O'Rourke (Basingstoke: Palgrave Macmillan, 2003; clawr papur 2007), t. 25.

23 *English Masculinities 1660–1800*, gol. Michèle Cohen a Tim Hitchcock (Harlow, 1999).

24 Philip Carter, *Men and the Emergence of Polite Society, Britain 1660–1800* (Harlow, 2001), t. 5; Michèle Cohen, 'Manliness, Effeminacy and the French: Gender and the Construction of National Character in Eighteenth-Century England', yn *English Masculinities 1660–1800*, gol. Cohen a Hitchcock, tt. 44–61.

Belfast yn Iwerddon.[25] Yr oedd y cymdeithasau hyn yn wahanol i'r urddau proffesiynol a oedd ar gael ers yr Oesoedd Canol, ac yn ffenomen fwy strwythuredig na'r tai coffi niferus a oedd mor boblogaidd yn Llundain ar droad y ddeunawfed ganrif.[26] Nodweddid diwylliant cymdeithasaidd y cyfnod gan amlder, a cheid yn Llundain glybiau dadlau, clybiau cyfeillgar, clybiau llenyddol ac athronyddol, a chlybiau mwy masweddus eu natur hefyd. Ceid clybiau gwleidyddol, megis y Kit-Cat Club a'r Hanover Club a bleidiai wleidyddiaeth Chwig, ond erbyn y 1790au yr oedd cymdeithasau o natur wleidyddol, fel y Society for Constitutional Information (SCI) a'r London Corresponding Society (LCS), yn fwy ymrwymedig ac yn pleidio diwygiad gwleidyddol a chymdeithasol.[27] Y mae cyfrinfeydd y Seiri Rhyddion, a oedd ar gynnydd yn y ddeunawfed ganrif, hefyd yn rhan o'r cyd-destun cymdeithasaidd ac Ymoleuedig ehangach, a hynny oherwydd eu hymlyniad wrth oddefgarwch crefyddol a brawdoliaeth gyffredinol.[28]

Perthynai rhai o Gymry Llundain i amryw o'r clybiau a'r cymdeithasau hyn ac, yn eu tro, daliai'r cymdeithasau gysylltiad â ffigurau adnabyddus y ddinas. Er enghraifft, canodd yr awdur Saesneg Thomas D'Urfey gerdd i'r Hen Frythoniaid a'i pherfformio hefyd, o bosib, yn eu gŵydd,[29] ac yr oedd hynafiaethwyr Seisnig o fri, William Stukeley a Browne Willis, yn gefnogol i'r Cymmrodorion.[30] Fe ddangosodd Geraint Phillips nad oedd Owain Myfyr erioed yn aelod o'r urdd briodol i'w alwedigaeth, sef y Worshipful Company of Skinners, ond iddo ymaelodi â'r Salters' Company.[31] Ymhlith cyfeillion William Owen Pughe yr oedd sawl aelod o gymdeithasau radicalaidd Llundain, yr SCI a'r LCS, sef John Thelwall, John Horne Tooke, Robert Southey a Gilbert Wakefield. Yr oedd Iolo Morganwg, yntau, wedi ei wefreiddio gan hinsawdd wleidyddol Llundain y 1790au, a chanodd gân Saesneg, *Trial by Jury* (1795), mewn achlysur i ddathlu rhyddhau'r diffinyddion – Thelwell, Tooke a Thomas Hardy – yn y Crown and Anchor, 5 Chwefror 1795. Yn ei gerdd *The Padouca Hunt* (1799), a luniwyd yn 1791 ac a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth, cyffelybodd David Samwell Gymdeithas y Caradogion â chymdeithas ddadlau'r Robin Hood Society. Cymdeithas ddadlau a gysylltid â thafarn y Robin Hood, Butcher's Row, oedd hon.[32] Yr oedd y Robin Hood Society a chlwb drama

25 Clark, *British Clubs and Societies*, passim. Ar gyfer Iwerddon, gweler *Clubs and Societies in Eighteenth-Century Ireland*, gol. James Kelly a Martyn J. Powell (Dublin: Four Courts Press, 2010); Jennifer Kelly a R. V. Comerford, *Associational Culture in Ireland and Abroad* (Dublin: Irish Academic Press, 2010).

26 Clark, *British Clubs and Societies*, tt. 22–4.

27 Ibid., passim.

28 Ibid., t. 76, a cheir pennod gyfan ar y Seiri Rhyddion yn *An Oxford Companion to the Romantic Age: British Culture 1776–1832*, gol. Iain McCalman et al. (Oxford: Oxford University Press, 2001), t. 513; E. J. Wilson, *Encyclopedia of the Enlightenment*, gol. P. H. Reill (New York: Facts on File, 1996), t. 514; Margaret C. Jacob, *Living the Enlightenment: Freemasonry and Politics in Eighteenth-Century Europe* (Oxford, 1991).

29 Sir Thomas Jones, *The Rise and Progress of the Most Honourable and Loyal Society of Antient Britons* (London, 1717). Gw. Allen, *The Clubs of Augustan London*, t. 104.

30 Clark, *British Clubs and Societies*, t. 298.

31 Phillips, *Dyn Heb ei Gyffelyb yn y Byd*, t. 14.

32 *The History of the Robinhood Society* (London: J. Fletcher and Company, 1764); Allen, *The Clubs of Augustan London*, tt. 129–36; Clark, *British Clubs and Societies*, t. 119.

amaturaidd y Spouting Club yn gysylltiedig â Gwyddelod Llundain, felly, yn sgil cysylltiad Samwell â rhai o Wyddelod Llundain megis yr hynafiaethydd Charles Vallencey, tybed a siaradai o brofiad am y Robin Hood Society?

A hithau'n ddinas a ddenai fewnfudwyr economaidd o gefn gwlad Prydain Fawr ac Iwerddon, ac, yn wir, o weddill y byd, yr oedd dimensiwn gwladgarol hefyd yn perthyn i ddiwylliant cymdeithasaidd Llundain; dimensiwn a sicrhâi nad oedd hunaniaeth genedlaethol, ddiwylliannol ac ieithyddol newydd-ddyfodiaid yn cael ei glastwrieddio yn y ddinas. Dangosodd Craig Bailey fod Gwyddelod y ddinas yn dueddol o ymsefydlu mewn ardaloedd penodol, a dangosodd Emrys Jones fod y Cymry hefyd yn gwneud yr un fath.[33] I Bailey, y mae presenoldeb y Gwyddelod, a chymunedau Gwyddelig, yn y ddinas yn ein gorfodi i feddwl yn wahanol am 'geographies of power' dinas fel Llundain, a chydnabod fod y ddinas yn ofod mwy hylif na'r disgwyl, 'a negotiated space' chwedl yntau, a rôi gyfle i bobloedd a goloneiddiwyd i ddal gafael ar eu hunaniaeth frodorol ar eu telerau eu hunain.[34] Yng nghyd-destun diwylliant cymdeithasaidd Llundain, yr oedd gan y Gwyddelod y Robin Hood Society a'r Spouting Club, ac i Albanwyr Llundain, eu 'gofod dan drafodaeth' hwy oedd cymdeithasau megis Sons of Morven (Morbheinn), Club of True Highlanders a The Highland Society: 'Ethnic associations and kinship networks are important tools migrants can use to counteract a sense of dislocation after migration.'[35] Yn yr un modd, llwyddodd cyfran arwyddocaol o'r *diaspora* Cymreig i gynnal a chadw eu Cymreictod trwy gyfrwng eu bywyd cymdeithasaidd Cymraeg eu hunain. Cyfeillgarwch a brawdgarwch, oedd un o gymhellion sylfaenol cymdeithasau gwladgarol: cynigient gyfle i wneud ffrindiau ac i atgyfnerthu hunaniaeth Wyddelig, Albanaidd a Chymreig, ac i'w perfformio i gyd-aelodau hefyd mewn gwleddoedd, llwncdestunau, dadleuon, areithiau, caneuon a llenyddiaeth gymdeithasaidd. Rhagor na hynny, gwelwn yn eu gweithgarwch isel- ac uchel-ael ddechreuadau sffêr gyhoeddus frodorol, ochr yn ochr â'r sffêr gyhoeddus Saesneg ei hiaith.

Yr oedd gan Gymry Llundain ddewis helaeth o gymdeithasau Cymraeg i leddfu eu hiraeth am Gymru ac fel antidot i ddieithrwch y ddinas. Erbyn y 1790au, Cymdeithas y Gwyneddigion oedd canolbwynt eu diwylliant cymdeithasaidd, a thrwy ei rhwydwaith o aelodau gohebol fe fwynhâi'r gymdeithas honno barch a bri yng Nghymru hefyd. Safai'r Gwyneddigion mewn olyniaeth anrhydeddus o gymdeithasau Cymraeg y brifddinas. Sefydlwyd Tra Anrhydeddus a Theyrngar Gymdeithas yr Hen Frythoniaid (The Honourable and Loyal Society of Antient Britons; 1715) yn yr un flwyddyn â'r gwrthryfel Jacobitaidd cyntaf ac, felly, nid

33 Craig Bailey, *Irish London: Middle-Class Migration in the Global Eighteenth-Century* (Liverpool: Liverpool University Press, 2013), t. 10; Emrys Jones, 'The Age of Societies', tt. 73, 76.

34 Bailey, *Irish London*, pp. 8–10.

35 Tanja Bueltmann, *Clubbing Together: Ethnicity, Civility and Formal Sociability in the Scottish Diaspora to 1930* (Liverpool: Liverpool University Press, 2014), t. 3. Gweler hefyd sylwadau Leathart ynghylch cysylltiadau William Owen Pughe a Thomas Jones â chlybiau'r Albanwyr ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ynghyd â chysylltiadau Gwyddelig a Manawaidd diweddarach, Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society of London*, tt. 49, 63, 69–71, 80, 84–5, 86, 87–9.

rhyfedd mai agenda teyrngarol ac elusennol, yn bennaf, oedd gan yr Hen Frythoniaid.[36] Cymdeithas wledda hen ffasiwn oedd hi, a dathlai'r gymdeithas ei Chymreictod drwy gyfrwng gwledd Gŵyl Ddewi flynyddol a thrwy gefnogi bechgyn tlawd o dras Cymreig yn yr Ysgol Gymraeg Elusennol (Welsh Charity School; 1718).[37] Yr oedd Cymreictod diwylliannol a hybu ysgolheictod hefyd yn nodwedd ar weithgarwch y gymdeithas ac ymhlith ei haelodau gwelid gwŷr fel Moses Williams (1685–1742) a John Morgan, Matchin (1688–1733). Sefydlwyd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1751 gan Lewis Morris a'i frawd Richard, o bosib am i Lewis fethu â chael ei enwebu i'r Gymdeithas Frenhinol.[38] Er bod agenda ddiwylliannol Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion (1751–87) yn fwy eglur ac, yn wir, yn fwy uchelgeisiol na'u rhagflaenydd, yr oedd y Cymmrodorion hefyd yn ymateb i anghenion cymdeithasol y Cymry Llundeinig. Byddai, felly, yn cwrdd yn fisol yn hytrach na'n flynyddol.[39] Parhaodd i gefnogi'r ysgol elusennol ac fel yr hen Frythoniaid, yr oedd y Cymmrodorion, a sefydlwyd chwe mlynedd wedi'r ail wrthryfel Jacobitaidd, hefyd yn gymdeithas a oedd yn deyrngar i'r eglwys Brotestannaidd ac i'r teulu brenhinol Hanoferaidd. Gwelir hyn yn glir yn y delweddau o dderwydd ac esgob a welir ar flaen y *Gosodedigaethau* a gyhoeddwyd yn 1755, ac yn y llwncdestunau teyrngarol a gynigid mewn cyfarfodydd.[40] Sefydlwyd Cymdeithas y Gwyneddigion ym 1770 gan Owain Myfyr a Chymmrodorion eraill, gan gynnwys Robert Hughes (Robin Ddu yr Ail o Fôn; 1744–85) a John Edwards (Siôn Ceiriog; 1749–92). Y mae'n debyg nad oedd naws elitaidd y Cymmrodorion at eu dant, nac ychwaith agwedd wasaidd rhai o'u cyd-aelodau tuag at noddwyr cefnog y gymdeithas honno. Bwriad cychwynnol y Gwyneddigion, felly, oedd cynnal awyrgylch mwy gwerinol ond, diolch i nawdd hael Owain Myfyr, gydag amser, llwyddodd y gymdeithas i wireddu agenda ysgolheigaidd trawiadol hefyd.

Er i'r naill gymdeithas dyfu o'r llall, nid oedd y Cymmrodorion a'r Gwyneddigion yn cystadlu â'i gilydd. Mewn patrwm a oedd yn gyffredin yng nghlybiau Prydain ac Iwerddon, rhannai'r cymdeithasau lawer iawn o'r un aelodau gan sicrhau croes-ffrwythloni syniadol.[41] Bu'r Gymdeithas Frenhinol a'r Académie Française yn fodelau Ymoleuedig i Lewis a Richard Morris wrth sefydlu'r Cymmrodorion ac, yn y pen draw, cadwyd y delfryd dysgedig hwnnw gan y Gwyneddigion. Yn hyn o beth, felly, y mae'r cyhoeddiadau llenyddol a hynafiaethol a noddwyd nid yn unig yn dangos eu hymlyniad Ymoleuedig wrth ddysg a democratiaeth y sffêr gyhoeddus, ond hefyd, yn berfformiad cyhoeddus o'u cenedlgarwch Cymreig. Gwelir hyn yn y gefnogaeth a gafodd Goronwy Owen,

36 Gweler Peter Clark ynghylch teyrngarwch cyffredinol clybiau o'r fath yn dilyn y Chwyldro Gogoneddus yn 1660, Clark, *British Clubs and Societies*, t. 48.

37 Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t. 46; Prescott, *Bards and Britons*, tt. 1–28, 53–5.

38 Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t. 46.

39 Ibid., t. 49–50.

40 Ibid., t. 52; cymharer Leathart, *The Origin and Progress of the Gwyneddigion Society*, t. 18.

41 Y mae Leathart yn cydnabod trawsaelodaeth rhwng y Cymmrodorion a'r Gwyneddigion; gw. Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society*, t. 29; gw. hefyd Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, tt. 128–9.

Evan Evans a Hugh Jones o Langwm gan y Cymmrodorion, ac yng nghyhoeddiadau arwyddocaol y Gwyneddigion, megis *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (1789), *The Heroic Elegies of Llywarç Hen* (1792), *The Myvyrian Archaiology of Wales* (1801–07), *The Cambrian Biography* (1803), ynghyd â'r cylchgronau byrhoedlog, *The Cambrian Register* (1795–6, 1818) a'r *Greal* (1807). Y mae'n deg dweud i'r cyhoeddiadau hyn ddiffinio eu cyfnod. Ddwy ganrif yn ddiweddarach, y maent yn dal i ryfeddu ac i gyfareddu'r sawl sy'n troi atynt am eu bod nid yn unig yn gyfryngau ar gyfer mynegi a throsglwyddo hunaniaeth farddol Cymru, ond am eu bod hefyd yn cynrychioli camau pwysig yn y broses o ffurfio canon llenyddol Cymraeg ac, yn benodol drwy ganoneiddio Dafydd ap Gwilym yn fardd cenedlaethol.[42]

Yn eu tro, tyfodd dyrnaid o gymdeithasau bach allan o Gymdeithas y Gwyneddigion yn ystod y 1790au, a gwelir patrwm o gydaelodaeth ar waith ynddynt hwy hefyd. Sefydlwyd cymdeithas ddadlau'r Caradogion (1790) gan y cymdeithaswr o fri, David Samwell. Y mae enw'r gymdeithas yn egsotig ac yn apelio'n hunanymwybodol at hanes, Caradog (Caractacus), y 'Brython enwog', chwedl Edward Charles,[43] a wrthwynebodd y Rhufeiniaid ac a enillodd barch Iŵl Cesar â'i areithio huawdl. Y mae enw cymdeithas lenyddol yr Ofyddion (1794) a sefydlwyd gan William Owen Pughe,[44] yn dwyn i gof un o urddau Gorseddol Edward Williams ac, felly, yn awgrymu cyswllt Ioloaidd, radicalaidd a derwyddol. Diau bod selogion gorseddau Edward Williams ymhlith aelodau'r gymdeithas hon, sef David Samwell, Owen Jones, Willian Owen Pughe, a John Jones (Glan-y-gors; 1766–1821). Cymdeithasau mwy gwerinaidd a syber eu naws oedd y Canorion (1787–91) a'r Cymreigyddion (1795). Cymdeithas lawen oedd y Canorion, a mwynhâi ei haelodau swpera a chanu, a chanu penillion yn enwedig.[45] Sefydlwyd y Cymreigyddion gan Thomas Roberts Llwyn'rhudol (1765/66–1841) a oedd, meddir, wedi syrffedu ar dra-arglwyddiaeth Owen Jones dros y Gwyneddigion.[46] Fel cymdeithas y Caradogion, cymdeithas ddadlau oedd hon ac, yn wyneb daliadau radicalaidd ei sylfaenwyr, rhoddwyd blaenoriaeth i bynciau gwleidyddol a chymdeithasol yn y dadleuon wythnosol. Yr wyf i wedi dadlau bod modd ychwanegu Gorsedd y Beirdd (1792) Edward Williams at y rhestr hon o fân gymdeithasau, a hynny am mai aelodau dethol, radicalaidd y Gwyneddigion, i bob pwrpas, oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd gorseddol yn Llundain.[47] At hynny, y mae llawer iawn o ddefodaeth y gorseddau, megis datgan cerddi a thestunau eraill

42 Phillips, *Dyn Heb Ei Gyffelyb yn y Byd*, tt. 80–9; Dafydd Johnston, 'Radical Adaptation: Translations of Medieval Welsh Poetry in the 1790s', yn Constantine a Johnston (goln), *Footsteps of Liberty & Revolt*, tt. 169–89.

43 Edward Charles, 'Penillion i Garadog (1796)', Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), tt. 22–5.

44 Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t. 136.

45 Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society*, t. 56.

46 Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, tt. 129–31; Phillips, *Dyn Heb Ei Gyffelyb yn y Byd*, tt. 26–7.

47 Cathryn A. Charnell-White, 'Perfformio Cenedl y Dychymyg: Iolo Morganwg a Dechreuadau Gorsedd y Beirdd', yn *Perfformio'r Genedl: Ar Drywydd Hywel Teifi Edwards*, gol. Anwen Jones (Caerdydd, 2017), tt. 117–46.

ar goedd, yn gydnaws â diwylliant a difyrrwch cymdeithasaidd cyffredinol. Yn achos y Caradogion, yr Ofyddion, a Gorsedd y Beirdd, adlewyrchir bwrwlwm gwleidyddol radicalaidd Llundain y 1790au, ond at ei gilydd, y mae'r dyrnaid o gymdeithasau Cymraeg hyn hefyd yn dyst i hyfywedd y bywyd cymdeithasaidd Cymraeg yn Llundain ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

Clybiau cymdeithasol yn anad dim arall oedd cymdeithasau'r Cymry Llundeinig, a diwallent yr angen sylfaenol am gyfeillgarwch rhwng pobl â'i gilydd. Daeth cymdeithasau'r Cymmrodorion, y Gwyneddigion, Gorsedd y Beirdd, y Caradogion, y Canorion, a'r Cymreigyddion, felly, yn feithrinfeydd ar gyfer cenedlgarwch a brawdgarwch i Gymry'r brifddinas. Nodwyd eisoes y gweithgarwch diwylliannol a'r cyhoeddiadau hynafiaethol, ond yr oedd eu hadloniant cymdeithasaidd yn llawn ac yn amrywiol hefyd. Y Gymraeg, fynychaf, oedd iaith eu cymdeithasgarwch: darllenent farddoniaeth ar goedd, cynhalient ddadleuon, a thraethent bapurau dysgedig ar bynciau amrywiol. Yr oedd areithiau difrifol a dychanol eu natur hefyd yn rhan o'r arlwy, a chanu penillion i gyfeiliant y delyn hefyd yn achos y Gwyneddigion a'r Canorion. Yr oedd canon llenyddol difyrrus nid ansylweddol hefyd yn rhan o'r adloniant.

*Y canon llenyddol cymdeithasaidd*

O droi at y llenyddiaeth gymdeithasaidd, y mae swm a sylwedd y deunydd sydd ar glawr yn drawiadol. O ran swm, rhwng y Cymmrodorion, y Gwyneddigion, a gorseddau Llundeinig Iolo Morganwg, ceir digon o ddeunydd amrywiol yn y canon i lunio cyfrol swmpus ddigon, a hynny heb orfod cynnwys cerddi a luniwyd gogyfer eisteddfodau'r Gwyneddigion yn y 1790au. Ceir tua hanner cant o gerddi caeth a rhydd, a thua dwsin o ddarnau rhyddiaith. Y mae'r deunydd i'w gael mewn llawysgrifau a gedwir yn y Llyfrgell Brydeinig ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a'r rheiny'n llawysgrifau a oedd yn eiddo i'r awduron eu hunain ac i aelodau'r cymdeithasau. Un o'r ffynonellau cyfoethocaf, ac asgwrn cefn y canon llenyddol cymdeithasaidd sy'n cael sylw yn yr ysgrif hon, yw 'Brychlyfr' Edward Charles. Brodor o Glocaenog, sir Ddinbych oedd Edward Charles, ac erbyn iddo ddod i sylw'r Gwyneddigion, tua 1789, yr oedd yn gweithio fel cynorthwyydd i ddilledydd yn Llundain.[48] Er ei fod ymhlith aelodau mwyaf egnïol a chymdeithasaidd y Cymry Llundeinig, y mae bellach yn gymeriad anghofiedig. Yr oedd yn fardd, yn llythyrwr, yn awdur rhyddiaith, ac yn bamffledwr gwrth-Fethodistaidd drwy ei *Epistolau Cymraeg at y Cymry* (1799). I'w gyd-aelodau yng nghymdeithasau'r Cymry Llundeinig, Siamas Wynedd, Sierlyn, Sierlyn Fardd ac Iorwerth Sierlyn ydoedd. Y mae ei lawysgrif bersonol, 'Y Brychlyfr', i bob pwrpas yn gofnod byw o gymdeithasgarwch y Gwyneddigion ac eraill yn ystod y 1790au, ac ynddi mae'n ffafrio'r enw barddol Iorwerth Sierlyn. Cofnodir ynddi natur fyrlymus a meddwol y cyfarfodydd a llwyddir felly i ddarlunio'r personoliaethau a'r ddeinameg ryng-bersonol a gyfrannodd at y canon llenyddol cymdeithasaidd.

48 J. Hubert Morgan, 'Edward Charles (Siamas Wynedd)', *Y Llenor*, 10 (1931), 25–34.

Y mae awduron y testunau cymdeithasaidd, fynychaf, yn aelodau Llundeinig o'r cymdeithasau. Ceir enwau aelodau blaenllaw yn eu plith a oedd yn Llundeinwyr sefydlog, megis David Samwell a John Jones, ond nid arweinwyr y cymdeithasau, o reidrwydd, oedd yn gyfrifol am siapio'r canon llenyddol cymdeithasaidd. Cyfrannodd Edward Charles, John Edwards, Hugh Maurice (nai Owen Jones), a Thomas Jones (Y Bardd Cloff; 1768–1828) at y canon, yn ogystal â thrigolion dros dro yn y ddinas megis Robert Davies (Bardd Nantglyn; 1769–1835) ac Edward Williams. Ceir hefyd ambell eitem a luniwyd er difyrrwch, neu er anrhydedd i'r cymdeithasau Llundeinig gan gyfeillion o Gymru: Thomas Edwards (Twm o'r Nant), David Thomas (Dafydd Ddu Eryri), Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi), David Davis (Castell Hywel), Jonathan Hughes, John Roberts Tŷ Du, a John Llwyd o Gorwen. Yn hyn o beth, sef ym mhresenoldeb gwaith carfan o awduron o Lundain a Chymru a chanddynt ddaliadau crefyddol a gwleidyddol gwahanol iawn i'w gilydd, gwelir hyd a lled rhwydweithiau Cymry Llundain, a hefyd grym hunaniaeth gymdeithasaidd – sef brawdgarwch a Chymreictod – i drosgynnu gwahaniaethau enwadol a phleidiol.[49]

O ran sylwedd, nod amgen y canon cymdeithasaidd yw ei natur hunangyfeiriadol drawiadol. Ceir cerddi ar gyfer digwyddiadau cymdeithasaidd ffurfiol fel dathliadau Gŵyl Ddewi, cerddi dychanol (ac weithiau masweddus), sy'n ymwneud â chyfarfodydd, yn ogystal â ffug-farwnadau a marwnadau diffuant i gyd-aelodau. Y mae'r eitemau rhyddiaith, er yn llai niferus, lawn mor amrywiol â'r farddoniaeth: ceir darnau difyrrus a dychanol, nodiadau bras sy'n amlinellu areithiau a draddodwyd mewn cyfarfodydd, ynghyd ag un llythyr dychanol. At hynny, y mae sawl llythyr confensiynol rhwng aelodau'r cymdeithasau â'i gilydd hefyd yn cynnwys manylion ynghylch y math o ddifyrrwch a fwynheid mewn cyfarfodydd, yn arbennig felly ohebiaeth Edward Charles, John Jones, a Thomas Jones. Gwelir hybridedd neu ddrysu ffiniau barddoniaeth a rhyddiaith weithiau mewn ambell destun rhyddiaith wrth i awduron ymgorffori barddoniaeth ynddynt.

Y mae'r rhyddiaith yn Gymraeg ei hiaith, ac felly hefyd y rhan fwyaf o'r cerddi. Ond yn unol ag amlieithrwydd Llundain, nid rhyfedd canfod cerddi Saesneg yn y canon hefyd. Ymddengys fod dewis iaith y llenyddiaeth gymdeithasaidd yn dibynnu ar y gynulleidfa ddealledig. Fel rheol, y mae'r cerddi ar gyfer cynulleidfa fewnol o gyd-aelodau (ac aelodau gohebol) yn Gymraeg eu hiaith. Bwriadwyd y cerddi Saesneg, fe dybir, ar gyfer cynulleidfa allanol a chyffredinol, er enghraifft, *The Padouca Hunt* a gyhoeddwyd yn 1799 yn *The Commercial and Agricultural Magazine*, ac *Ode for the New Year M, DCC, XC, as it was intended to have been rehearsed this Day at St. James's* ([1790]), ill dwy gan David Samwell.[50] Ymddangosodd cerddi Cymraeg a Saesneg gan Thomas Jones mewn print hefyd.[51]

49 Charnell-White, 'Networking the Nation'.

50 Atgynhyrchir y ddwy gerdd yn Fitzpatrick et al. (goln), *The Death of Captain Cook and Other Writings by David Samwell*.

51 Thomas Jones, *At Gymdeithas y Gwyneddigion, Yr Awdl Hon i'ch Gwlêdd Flynyddawl* (London, [1799]); *idem*, *An Ode for Saint David's Day. Respectfully inscribed to the Honourable Societies of Ancient Britons and Gwynezigion* (London, 1802).

Yng ngherddi'r awduron sy'n byw yng Nghymru, gwelir ar waith hefyd berspectif 'allanol' ac, felly, mwy delfrydol ar gymdeithasgarwch Cymry Llundain, gan fod eu cerddi hwy yn dueddol o fynegi edmygedd tuag at y cymdeithasau a'u hagenda diwylliannol a hynafiaethol. Yn olaf, nid yn unig y mae dwyieithrwydd y canon yn dyst i 'Lundeinrwydd' y cymdeithasau Cymraeg, ond dylid nodi bod awduron fel Edward Williams, David Samwell, a Thomas Jones hefyd yn cyfrannu at y ffrwd lenyddol Gymreig Saesneg ei hiaith (S. *Welsh writing in English*).

Gellir dadlau mai prif nodweddion y canon llenyddol cymdeithasaidd yw ei natur hunangyfeiriadol a hybrid; y naill yn nod amgen gwreiddiau cymdeithasaidd y testunau, a'r llall yn nod amgen eu gwreiddiau dinesig. Fel llenyddiaeth gymdeithasaidd Seisnig y cyfnod,[52] y mae llawer iawn o'r testunau nid yn unig yn hunangyfeiriadol ond yn ddychanol hefyd. Gan mor hunangyfeiriadol yw'r llenyddiaeth gymdeithasaidd hon, mater hawdd fyddai ei disytyrru fel ffansi'r funud, neu ddiddanwch hunanfoddhaus a mewnddrychol na allai fod o ddiddordeb i neb y tu hwnt i'r cylch cyfrin. I'r gwrthwyneb, ei natur hunangyfeiriadol yw'r allwedd i ddehongli'r llenyddiaeth hon oherwydd golyga ei bod yn hynod werthfawr ar ei theilyngdod ei hun. Ymhellach, golyga hyn fod y canon yn ffynhonnell ddihafal ar gyfer dehongli hunaniaeth homogymdeithasol unigryw yr awduron. Yn y drafodaeth sy'n dilyn, rhoddir sylw i'r modd y mae'r testunau yn 'perfformio' homogymdeithasedd, cyfeillgarwch rhwng dynion, a hunaniaeth Gymreig, sef y brawdgarwch cenedlgarol a nodir yn nheitl yr ysgrif hon.

Ymgais yw'r ymadrodd 'brawdgarwch cenedlgarol' i gyfleu ystyr cyfansawdd y term *fratriotism* a fathwyd gan Murray Pittock, un o haneswyr 'Prydeindod' a'r adwaith iddo yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r tu hwnt. Y mae'r ymadrodd yn disgrifio'r ddeinameg afieithus a chenedlgarol ymhlith Gwyddelod ac Albanwyr Llundain wrth iddynt droi at eu mamwlad er mwyn siapio eu diwylliant a'u defodaeth cymdeithasaidd eu hunain yn Llundain. Dyma, yn syml, yw brawdgarwch cenedlgarol: 'the cultural option open to Scottish and Irish writers to perform a distinctive self in diaspora'.[53] Term ydyw sy'n ymgorffori anodded yw datgysylltu'r ddwy nodwedd hon – 'brawdgarwch' (S. *fraternity*) a 'chenedlgarwch' (S. *patriotism*) – wrth drafod diwylliant cymdeithasaidd y ddeunawfed ganrif yn gyffredinol. Rhoddir sylw i'r modd y mae'r llenyddiaeth yn perfformio hunaniaeth Gymreig a Llundeinig, a gan fod homogymdeithasedd y canon i'w weld gliriaf mewn testunau sy'n mynd i'r afael â maswedd a diota, rhoddir sylw hefyd i'r themâu hynny.

Gellir synio am y corff hwn o lenyddiaeth yn 'perfformio' brawdgarwch cenedlgarol y cymdeithasau yn sgil pwysigrwydd creu, yn ogystal â disgrifio, i'r cysyniad beirniadol o 'berfformio' ac i ddisgwrs perfformiadol yn gyffredinol. I

52 Ar gyfer llenyddiaeth Saesneg sy'n ymgorffori meddylfryd a gweithgarwch cymdeithasaidd, gweler Allen, *The Clubs of Augustan London*, tt. 11–12.

53 Murray Pittock, *Scottish and Irish Romanticism* (Oxford: Oxford University Press, 2008), tt. 7, 235–58.

feirniaid fel Judith Butler y mae perfformio a pherfformadwyedd yn gallu gwireddu cysyniadau neu ddisgwrs sy'n troi o amgylch hunaniaeth; hunaniaeth ryweddol yng ngwaith Butler,[54] ond hefyd hunaniaeth sy'n troi o amgylch diwylliant, gwleidyddiaeth neu grefydd.[55] Yn sgil llwyddiant Jonathan Barry i ddangos perthynas clybiau a chymdeithasau â thwf hunaniaeth fwrgais,[56] a'r sylw cyffredinol a roir i hunaniaeth ryweddol wrywaidd y byd homogymdeithasol hwnnw, gellid cynnwys hunaniaeth gymdeithasaidd, felly, ymhlith y mathau o hunaniaeth y gellid eu perfformio.[57] Trafoda Alison O'Byrne y modd yr oedd gwylio a bod yn sylwedydd yn arwain at berfformio diwylliant cymdeithasgar y cyfnod: 'as men become spectators of one another in the city, each begins to live in the eyes of the world, displaying taste, wit, and talents while conscious that his performance is observed by others.' Y mae i berfformadwyedd ddimensiwn atblygol, yn ogystal â sylwedyddol, yn sgil gorgyffwrdd rhwng rhywbeth (hunaniaeth gymdeithasaidd y Cymry Llundeinig) a'r hyn sy'n ei gynrychioli (y canon llenyddol cymdeithasaidd), 'when the act of representing something *is that thing itself*'.[58] O ystyried llenyddiaeth cymdeithasau Cymry Llundain fel perfformiad sy'n gwireddu eu hunaniaeth wneuthuredig, y mae sawl peth i'w ystyried. Yn y lle cyntaf, math o berfformio oedd y cyfansoddi cychwynnol, oherwydd âi'r aelodau ati i gyfansoddi barddoniaeth a rhyddiaith ddifyrrus yn rhith eu *personae* cymdeithasaidd, yn hytrach na'u *personae* beunyddiol. Mabwysiadodd y rhan fwyaf o'r Gwyneddigion enwau barddol,[59] ac arddelwyd yr enwau barddol wrth gyfathrebu â chyd-aelodau ac wrth eu diddanu. Yr oedd enwau barddol yn rhan annatod, felly, o'r hunaniaeth gymdeithasaidd a berfformiwyd, ac yn arwydd o'r ffaith fod cyfarfodydd yn ofod a drawsnewidiai aelodau. Iorwerth Sierlyn, Siôn Ceiriog a Dafydd Ddu Feddyg a farddonai, ac nid Edward Charles, John Edwards a David Samwell. Fel cydnabyddiaeth o arwyddocâd yr enwau barddol, o hyn allan, rhoddir blaenoriaeth yn yr ysgrif hon i enwau barddol yr aelodau yn hytrach na'u henwau priod. Yn ail, perfformid y llenyddiaeth ddifyrrus i gynulleidfa o gyd-aelodau. Yn drydydd, drwy ddisgrifio'r cyfarfodydd a brawdgarwch cenedlgarol y cymdeithasau yn eu testunau, yr oedd y llenorion hefyd yn atgynhyrchu ac yn gwireddu'r hunaniaeth gymdeithasaidd honno yn ei holl gymhlethdod.

## *Brawdgarwch cenedlgarol: hunaniaeth Gymreig a Llundeinig*

54 Judith Butler, *Excitable Speech: A Politics of the Performance* (London, 1997), passim; Butler, *Gender Trouble: Feminism and the Subversion of Identity* (argraffiad diwygiedig, New York and London, 2007), tt. 34, 185–93.

55 James Loxley, *Performativity*, (London: Routledge, 2007); *Performance and Performativity in German Cultural Studies*, gol. Carolina Duttlinger, Lucia Ruprecht ac Andrew Webber (Oxford: Oxford University Press, 2003), tt. 9–10, 11.

56 Jonathan Barry, 'Bourgeois Collectivism? Urban Association and the Middling Sort', yn *The Middling Sort of People: Culture, Society and Politics in England, 1550–1800*, gol. Jonathan Barry a Christopher Brooks (London, 1994), tt. 84–112.

57 Gweler Alison O'Byrne, 'The Spectator and the Rise of the Modern Metropole', yn *The Cambridge Companion to The City in Literature*, gol. Kevin R. McNamara (Cambridge, 2014), tt. 57–68, 60.

58 Duttlinger et al. (goln), *Performance and Performativity in German Cultural Studies*, t. 13.

59 Jenkins a Ramage, *A History of the Honourable Society of Cymmrodorion*, t. 115.

Y mae llinellau agoriadol un o gerddi cymdeithasaidd Iorwerth Sierlyn, ‘Penillion i annerch Cymdeithas y Cymreigyddion yn Llundain’, yn mynegi’n groyw yr elfennau a grisielir yn y term *fratriotism*:

Yr hael gyfeillion, mwynion maith,
Hawddgara’ gwaith rhagorol,
Bod yn llawen yw eich bryd,
Ers ennyd yn gysonol;
Cynnal mwynder, hyfder hedd,
Anrhydedd sydd lle rhodiwch,
Clywed sôn amdano chwi
(Fy stori na ddistyriwch):
Byw mor ddedwydd y mae’r gwŷr,
Yn frodyr mewn hyfrydwch.[60]

Y mae’r gerdd yn talu teyrnged i Gymdeithas y Cymreigyddion ac yn perfformio’r brawdgarwch cenedlgarol a nodweddai’r gymdeithas honno. Yr oedd hon hefyd yn gân i’w pherfformio, a hynny’n llythrennol ar y dôn ‘Blodau’r Dyffryn’. Diau, felly, i Iorwerth Sierlyn ganu hon i’w gyd-aelodau. Ond, ac yntau’n enghraifft dda o un a ymaelododd â mwy nag un gymdeithas, gellid dadlau bod Iorwerth Sierlyn yn y gerdd hon hefyd yn perfformio brawdgarwch cenedlgarol holl gymdeithasau Cymreig y ddinas. Â ymlaen i grynhoi’n hwylus yr ystod o anghenion cymdeithasol a diwylliannol a gyflawnai’r cymdeithasau, gan gynnwys gweithgareddau:

Er gwaetha’ sŵn y Saeson sur,
Y chwi sydd bur eich bwriad,
Ac yn cyfarfod bob nos Iau,
Dan raddau, amal roddiad;
Siarad iaith y Brython hen,
A llawen, gyda’ch Llywydd,
Ni chlywir gair o Saesneg chwith,
Na geiriau rhith nac arwydd:
Hen ddefodau, gorau gynt,
A’u helynt sydd yn hylwydd.
[. . .]
Pob un yn siarad, yn ei drefn,
Heb droi mo’i gefn nac ofni;
Traethu pynciau, ffrwythau ffraeth,
Yn lanwaith i’r goleuni;
Dysgu moesau, doniau dwys,
Yn gymwys, ac ymgomio,

60 Edward Charles, ‘Penillion i annerch Cymdeithas y Cymraegyddion [sic] yn Llundain. Y dôn yw Blodau’r Dyffryn (30 Hydref 1798)’, Llawysgrif Cwrtmawr 71E, tt. 157, 157–9. O ran ieithwedd brawdgarwch, gweler hefyd ddisgrifiad Jac Glan-y-gors o’r Cymreigyddion fel ‘hardd frodyr un fryd’, Millward (gol.), *Cerddi Jac Glan-y-gors*, t. 92.

Dweud o rinwedd yr hen iaith
Ag araith a ragoro;
Ac felly'ch moddion yn ddi-gas,
Fawl addas, fyth a lwyddo [. . .][61]

Y mae'r gerdd ar ei hyd yn gosod tôn y gweithgareddau a fwynheid: llawenydd, cyfeillgarwch a brawdgarwch sy'n mynd â'u bryd. Diffinnir y Cymry yn erbyn y mwyafrif Saesneg eu hiaith, a nodir mai un o amcanion y gymdeithas, felly, yw siarad Cymraeg ('iaith y Brython') a chynnal eu Cymreictod ('Dyma'r Cymry'n t'wnu tês,/ A'u hanes fyth a henwir').[62] O grybwyll cyfeillgarwch, gweithgareddau, Cymreictod, hynafiaethau, yr Ymoleuo, a chydraddoldeb, taflunnir yma ddarlun hunanymwybodol iawn o hunaniaeth Gymreig a chymdeithasaidd y Llundeinwyr. Taflunnir hefyd ddarlun mwy syber na'r hyn a geir mewn testunau eraill sy'n perthyn i'r canon hwn, gan gynnwys testunau gan Iorwerth Sierlyn ei hun. Bron nad yw'r pwyslais ar berfformio gweithgareddau'r gymdeithas 'yn gymwys' – traethu pynciau, dysgu moesau, ymgomio ac areithio – yn rhoi darlun o gymdeithasgarwch parchus ac allanol y cwmni yn hytrach na'u diwylliant cymdeithasaidd mewnol!

Un o'r testunau mwyaf perfformiadol yn y canon yw'r gerdd *The Padouca Hunt* gan Dafydd Ddu Feddyg. Os yw cerdd Iorwerth Sierlyn, uchod, yn rhoi cipolwg ar gymdeithasedd y Cymry Llundain, yna y mae cerdd Dafydd Ddu Feddyg yn tynhau'r ffocws. Y mae'r ffug arwrgerdd yn darlunio un o ddadleuon mwyaf tanbaid y Caradogion, sef y ddadl ffasiynol gyfoes ynghylch yr Indiaid Cymreig, disgynyddion honedig Madog ab Owain Gwynedd.[63] Yr oedd Dafydd Ddu Feddyg, a fu'n llawfeddyg i'r Capten James Cook (1728–1779), yn ffigwr adnabyddus yn Llundain ar gorn ei gofiant i Cook, *A Narrative of the Death of Captain James Cook* (1786). Y mae ei gerdd am y Caradogion yn berfformiadol am iddo ei llunio ar gyfer cyd-aelodau (fe'i cyhoeddwyd yn ddiweddarach), ac am fod y naratif a'r hiwmor yn dibynnu'n llwyr ar wireddu deinameg ryngbersonol y gymdeithas.

Y mae'r penillion agoriadol yn disgrifio'r Bull's Head, neu'r Crindy fel y gelwid ef, lle yr arferai'r Caradogion gyfarfod:

In Walbrook stands a famous inn [The Bull's Head]
Near ancient Watling street,
Well stored with brandy, beer, and gin,
Where Cambrians nightly meet.

If on the left you leave the bar,
Where the Welsh landlord [Evan Roberts] sits;
You'll find the room, where wordy war
Is waged by Cambrian wits.
[…]

61 Llawysgrif Cwrtmawr 71E, t. 157.
62 Ibid., t. 158.
63 Gwyn A. Williams, *Madoc: The Making of a Myth* (London, 1979).

In Walbrook for the common good,
They meet and fiercely grapple;
Like wranglers at the Robin-Hood,
Or at St. Stephen's Chapel.[64]

Sefydlir hunaniaeth gymdeithasaidd, feddwol y cyfarfodydd yn y pennill cyntaf, uchod, ynghyd â hunaniaeth Gymreig y 'Cambrian wits'. Gan fod *The Padouca Hunt* yn gerdd Saesneg, awgrymir cynulleidfa ddealledig allanol ar ei chyfer. Atgyfnerthir y dyb hon gan yr ymuniaethu bwriadol â chlybiau Saesneg; clybiau dadlau a oedd, efallai, yn fodel i'r Caradogion, ac a oedd yn cyd-destunoli'r Caradogion – os nad yn eu dyrchafu – i gynulleidfa allanol Saesneg.

Eir ymlaen i sgriptio'r ddadl yn fanwl. Siôn Ceiriog yw'r cyntaf i gymryd y llawr, sef gŵr a oedd yn *raconteur* a thynnwr coes di-ail, ac a ddisgrifiwyd gan Dafydd Ddu Feddyg fel 'witty, satirical & humourous, a sensible well informed man but rather too violent in his argument. He was fluent in his speech & very fond of speaking'.[65] Yn y gerdd hon, ac eraill, ac yn y deunydd sydd ar gael yn llawysgrifau Iorwerth Sierlyn a Gwilym Dawel, fe welir sut yr enillodd Siôn Ceiriog enw diarhebol iddo ef ei hun. Fe wyddai'n union sut i danio tymer barod Dafydd Ddu Feddyg, ond eto, llwyddai i ymatal mewn pryd.[66] Dilynir Siôn Ceiriog gan Owain Myfyr, Ned Môn, a Dafydd Ddu Feddyg ei hun. Trwy daflunio lleisiau ei gyd-aelodau, y mae Dafydd Ddu Feddyg yn peri iddynt lefaru drostynt eu hunain a datgelu eu safbwynt unigolyddol ar y pwnc dan sylw, ynghyd â datgelu natur unigolyddol eu personoliaethau. Er enghraifft, dyma'r disgrifiad dychanol o Owain Myfyr:

Myfyr, at length, indignant rose
Full five feet from the ground,
And said, 'The Jackall [Siôn Ceiriog], I suppose,
The question would confound.'

We came to speak of Owen's son [Madog ab Owain Gwynedd]
Who cross'd the Atlantic Ocean,
Siôn's Bedlamite ideas run
Quite foreign to the motion.

64 *The Padouca Hunt. An Heroic Poem – Written in 1791 – (Now first Published,) with notes, critical and explanatory* (London, 1799). Atgynhyrchir yn Fitzpatrick et al. (goln), *The Death of Captain Cook and Other Writings by David Samwell*, tt. 135–49, 135, 136.

65 Nodiadau bywgraffyddol David Samwell am John Edwards yng nghopi personol Samwell o gyfrol Evan Evans, *Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards* (London, 1764), Llawysgrif LlGC 4582C, t. v (verso).

66 Dyfynnir yn Bowen, *David Samwell*, t. 71: 'when he [Samwell] would shut one eye and with the other looked for the pilter pot which was his good missile to batter the skull of his tormentor.'

He wants to fright us from our task,
With this and t'other *Boogan*;
But, Gentlemen, I fain would ask,
Is not his name *Siôn Googan*?

Yes, and a Googan he'll remain,
In spite of all pretences,
To counsel him is all in vain,
The man hath lost his senses.[67]

Daw'r ddadl i ben yn ddisymwth yn sgil ymateb ffrom Owain Myfyr, gŵr a ddaeth, yn ôl tystiolaeth Thomas Roberts, Llwyn'rhudol, yn deyrn ar y cwmni diddan: 'Owen Jones ydyw y Brenin yn y cyfarfod hwnnw a pha beth bynnag a ddywedo ef, y mae yn rhaid ei fod yn wir ddiamheuol!!!'.[68] Natur y teyrn, yn ddiau, a welir yn yr episod hwn, wrth i'r Myfyr, yn ei ddicter, ddymchwel Bord Gron y Caradogion. Hon oedd y Ford Gron Arthuraidd, ddemocrataidd a oedd yn ymgorffori, fel prop mewn drama, eu diddordeb yn arwyr hanesyddol Cymru:

And springing with elastic bound,
As if to cut a dash,
Kick'd Arthur's table to the ground
With one tremendous crash.

All further reasoning to prevent,
And bring on stormy weather,
He upset candles, argument,
Pint-pots and all together.
[…]
All light extinguish'd to a spark
By Owen Myfyr's fun,
We ended deeper in the dark
Than when we first begun […][69]

Y mae *The Padouca Hunt* a cherddi eraill yn dangos sut y gallai testun berfformio a meithrin ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol, a hynny drwy gyfrwng hunangyfeiriadaeth, jôcs mewnol, a chofrestr o aelodau.[70] Eironi'r gerdd

67 Fitzpatrick et al. (goln), *The Death of Captain Cook and Other Writings by David Samwell*, tt. 140–1.

68 'Thomas Roberts at John Roberts (Siôn Lleyn), 26 Hydref 1805', Llawysgrif Cwrtmawr 71E, t. 41.

69 Fitzpatrick et al. (goln), *The Death of Captain Cook and Other Writings by David Samwell*, t. 146.

70 Y mae Jason Scott-Warren yn tynnu sylw at strategaethau o'r fath mewn perthynas â rhwydweithiau yn 'Reconstructing Manuscript Networks: The Textual Transactions of Sir Stephen Powle', yn *Communities in Early Modern England: Networks, Places, Rhetoric*, gol. Alexandra Shepard a Phil Withington (Manchester: Manchester University Press, 2000), t. 33.

gymdeithasaidd hon, fodd bynnag, yw bod Dafydd Ddu Feddyg, gŵr a chanddo rwydweithiau cymdeithasol eang, ac a oedd yn aelod o sawl cymdeithas Gymraeg a Saesneg yn Llundain, weithiau'n teimlo fel un o bobl yr ymylon yn Llundain.[71]

Goleddfwyd hunaniaeth Gymreig aelodau gan eu harwahanrwydd yn y ddinas ac felly y mae Llundeinrwydd y cymdeithasau hefyd yn ei amlygu ei hun yn eu canon llenyddol. Y mae Bardd Nantglyn, a fu'n byw dros dro yn Llundain rhwng 1800 a 1804, yn cyfleu profiad y mewnfudwr wrth bortreadu prysurdeb y ddinas yn y 'Cywydd i Swyddogion y Gwyneddigion yn Llundain 1800'. Y mae'r berw diwylliannol a'r amlieithrwydd dinesig – 'Babel gynt', 'llawn dynion/Duon a gwynion', 'pob iaith […] pob llin' – yn gyffrous o ddieithr:

Deuthum, gan ymdeithiaw,
O bant a glyn nant y glaw,
I Lundain, gywrain geyrydd,
Llawen dref, fawr, llawn drefydd.
Ail y tŵr yng ngwlad diriawn
Babel gynt, yn boblog iawn:
Pob heol drwy harddfol hon,
Llundeiniol, yn llawn dynion
Duon a gwynion yn gwau
A llawer o bob lliwiau;
Rhai pob iaith, araith ddeiryd,
Pob llin byw, pob lle yn y byd.[72]

Nid naratif diamwys o ddiethrwch y ddinas a gyflwynir gan Fardd Nantglyn. Ymddengys ei fod yn derbyn natur gosmopolitaidd ei filltir sgwâr mabwysiedig, ond eto i gyd, cwmni cyd-Gymry a oedd yn lleddfu ar yr ymdeimlad o aralledd.

Naratif disgwyliedig y cymdeithasau cenedlgarol yw eu bod yn gwarchod mewnfudwyr rhag boddi mewn môr o Seisnigrwydd. Fodd bynnag, gwelwyd bod cerddi'r canon cymdeithasaidd yn darlunio amlddiwylliannedd Llundain, a diddorol yw nodi bod Bardd Nantglyn yn nodi'r Gwyddelod yn ogystal â'r Saeson fel yr 'arall' y mae'r Cymry yn eu diffinio eu hunain yn eu herbyn:

O'r diwedd, yn awr deuais
O sŵn pob Gwyddel a Sais,
I addas Gymdeithas deg,
O ferth annwyl Frythoneg,
Llawen wiwddull Wyneddigion.[73]

71 Fitzpatrick, 'The "Cultivated Understanding" and Chaotic Genius of David Samwell', t. 384.
72 Robert Davies, 'Cywydd i Swyddogion y Gwyneddigion yn Llundain 1800', Llawysgrif Cwrtmawr 71E, tt. 151, 151–4.
73 Ibid., t. 151.

Cysur y cyfarwydd, felly, a geid ymhlith y Cymmrodorion, Gwyneddigion, a'r Caradogion, ac y mae'r llinellau nesaf gan Fardd Nantglyn i swyddogion y Gwyneddigion yn mynegi'r cysur a'r diogelwch a gaid o fod yn gyfrannog o gwmni cyd-Gymry ac o weithgareddau Cymraeg amrywiol y gymdeithas:

> Minnau sydd ym mynwes hon
> Yn cael rhan o ddiddanwch;
> Pob doniau hoff, flodau fflwch,
> A thelyn rhwng ei theulu
> Yn arllwys cerdd drwy'r llys cu,
> Datganwyr, areithwyr iawn,
> Ar lanwaith reol uniawn,
> Ac enaid Cymraeg union,
> Doeth sy'n y gymdeithas hon.[74]

Noder y sylw a roddir i'r diddanwch amrywiol ('pob doniau hoff', canu gyda'r delyn, datgan ac areithio), a noder hefyd yr eirfa deuluol ('mynwes […] ei theulu […] llys cu […] enaid Cymraeg union'). Dweud y mae bod y cymdeithasau Cymreig yn noddfa a hefyd yn gyfle i atgyfnerthu Cymreictod mewn awyrgylch o 'frawdgarwch cenedlgarol'.

*Maswedd a diota*

Yr oedd cymdeithasgarwch neu ddiwylliant cymdeithasaidd yn digwydd mewn gofod trwyadl wrywaidd: nid oedd menywod ymhlith yr aelodaeth ac yr oeddent yn 'bresennol', fel y gwelir maes o law, ar ffurf gwrthrychau yn unig i'r difyrrwch. Nid oedd gwreiddiau Ymoleuedig a chymdeithasgar diwylliant cymdeithasaidd yn gwarantu ymddygiad da mewn cyfarfodydd, yn enwedig gan fod y cymdeithasau fel arfer yn cwrdd yn nhafarndai'r ddinas: y Goose and Gridiron, George and Vulture, Cooper's Arms, Butler's Head a'r Bull's Head (neu'r Crindy). Maswedd a diota yw themâu mwyaf homogymdeithasaidd y byd cymdeithasaidd, a gwelir hyn yn achos amryw glybiau a chymdeithasau Saesneg, fel y drwgenwog Hell-fire Club a'r Kit-Cat Club.[75] Dengys R. J. Allen mai dyma'r nodweddion a oedd wedi eu gwreiddio yn y dychymyg cyhoeddus, a hynny mewn llenyddiaeth a delweddau gweledol a gyhoeddwyd yn *The Tatler, The Spectator* a'r *Gentleman's Magazine* a ddychanai ddiwylliant cymdeithasgar y cyfnod.[76] O ystyried gweithgarwch a llenyddiaeth ddifyrrus y cymdeithasau, gellir meddwl am ofod cymdeithasaidd gwrywaidd, homogymdeithasol o'r fath fel gofod trawsnewidiol: câi agweddau a safbwyntiau eu chwyddo mewn cyfarfodydd, a châi ymddygiad arferol ei ystumio, yn enwedig gan eu bod yno yn rhith eu personoliaethau cymdeithasaidd neu eu

74 Ibid., tt. 151–2.

75 Clark, *British Clubs and Societies*, tt. 50, 62; Allen, *The Clubs of Augustan London*, tt. 13, 52, 53.

76 Ibid., t. 120; Clark, *British Clubs and Societies*, tt. 4–5, 7, 94, 264, 333. Cofier hefyd am bortread dychanol Ned Ward o'r byd cymdeithasaidd, *Satyrical Reflections on Clubs* (London, 1710).

henwau barddol. Digwyddai hyn i raddau helaeth yn sgil yr hyder a ddeuai o gwmnïaeth 'eneidiau hoff cytûn' gwrywaidd, ond hefyd yn sgil yr ymorchestu a'r *bravado* a ddeuai gyda chymorth y ddiod gadarn.

Y mae'r rhan fwyaf o destunau sy'n mynd i'r afael â maswedd a diota yn hunangyfeiriadol eu natur am eu bod yn perfformio eu hunaniaeth gymdeithasaidd i gyd-aelodau, ac y mae'r cerddi sy'n troi o amgylch Siôn Ceiriog yn enghraifft wych o hyn. Y mae llythyrau Iolo Morganwg, Iorwerth Sierlyn a Jac Glan-y-gors, heb sôn am destunau difyrrus y cyfeillion, yn tystio i gampau rhywiol diarhebol Siôn Ceiriog; gŵr a fu, yn ôl tystiolaeth gohebiaeth Owain Myfyr, yn ymweld â phuteiniaid y ddinas yn Covent Garden.[77] Ystyrid Siôn Ceiriog yn ddyn golygus iawn, yn ôl tystiolaeth Dafydd Ddu Feddyg, ac yn gwmnïwr diddan hefyd.[78] Dyma deyrnged Iolo Morganwg, 'macwy Morganwg', iddo:

> Bwch ydyw i'w ryw a'i rin,
> Diawlig am ledu deulin;
> Marchaidd ymhlith y merched,
> Medd eu gair, mae'n ben crair Cred.
> A byth i'w galon a'i ben,
> Cua' ffawd, yw cyffoden;
> Mawr ei wres am lodesi,
> A gwŷn arth, fal y gwn i
> A rhylew drwy'r heolydd
> Codi llwch fal bwch y bydd.[79]

Y mae'r cywydd hwn yn perthyn i 1779, ond atgyfnerthir enw Siôn Ceiriog fel merchetwr mewn englynion aflednais gan gyfaill dienw o'r 1790au, sef 'Englynion i Ddyn Conteiddlyd a gymeradwywyd gan Siôn Ceiriog'.[80]

Lluniodd Iorwerth Sierlyn sawl ysgrif (neu araith) ddychanol sy'n cyplysu diota a hudoliaeth rywiol a phuteinio. Ystyrier, er enghraifft, 'Epistol yr Oferddyn' lle mae'r adroddwr yn breuddwydio am fod 'mewn tyrfa gyda hanner Coron yn fy llogell a fedraf gael mwynder merch ifangc lân'.[81] Ceir golygfa fugeiliol ystrydebol mewn ysgrif arall, 'Dewis bethau John Jones o Lan-y-gors, Bardd'; testun sy'n cyfuno rhyddiaith a barddoniaeth ac yn dathlu pleserau cilyddol rhyw a diota:

> Cael gan fy angyles yn y tawelwch yma, eistedd gyda mi ar y glaswellt, i sugno ychydig o ffrwyth y winwydden felys honno: cael gan fy nuwies ganu telyn, gyda diniwaid lais yr adar penne felynion: cael edrych trwy'r gleision dannau ar lygaid fy angyles yn toddi mewn mwyneidd-dra, a'i chyflym

77 Phillips, *Dyn Heb Ei Gyffelyb yn y Byd*, t. 29.
78 Llawysgrif LlGC 4582C, t. v (verso).
79 'Edward Williams at Owen Jones, 6 Mawrth 1779', *CIM I*, t. 134.
80 Llawysgrif BL Add. 14957, 123a–b. Gweler hefyd drafodaeth rhwng Iorwerth Sierlyn a chyfaill Llundeinig dienw yn ibid., tt. 85–6, 87–8, 107a–b.
81 Edward Charles, 'Epistol yr Oferddyn', Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), t. 215.

fysedd yn torri pob math ar leisiau peredd; yna byddai tiriondeb f'angyles yn boddio fy llygaid, a sŵn adar a thannau yn llenwi fy nghlustiau, a pherarogl y meillion a llysiau'r maes yn llenwi fy ffroenau; a sug y winwydden i godi fy ysbrydoedd: yna gallwn ddywedyd:

Dyma fodd haf-rodd hyfryd – am unwaith
Ymuno mewn llonfryd;
Ymyrraf i gymeryd
Pleserau ar bethau'r byd.[82]

Byddai nodweddion perfformiadol yr ysgrif – yr arddull Ciceronaidd gorflodeuog, taflunio llais Jac Glan-y-gors ac, o bosib, dynwared ei atal dweud – yn sicr o ennyn chwerthin croch y cyfeillion cymdeithasaidd.

Gwelir yr un naws ddychanol a phryfoclyd mewn cân fach awgrymog gan Iolo Morganwg, sef 'Cân Morfydd i'r Gyllell Gig'. Ymddengys bod Iolo wedi ei pherfformio yn ystod ymweliad â Llundain tua 1779 a bod Siôn Ceiriog wedyn yn awyddus i gael ei balfau ar gopi ysgrifenedig ohoni. Gan dynnu ar yr ystrydeb gyfoes fod y ffalws yn gynhenid ddeniadol i fenywod, cynllun syml y gerdd yw hyn: y mae Morfudd, cariadferch enwocaf ac anwylaf Dafydd ap Gwilym, yn moli'r 'gyllell gig' drosiadol, y ffalws, uwchlaw pob cyllell arall:

Clywch ferched y gwledydd, yn fawr ac yn fân,
I lonni'ch calonau o'm genau cewch gân,
Â mesur dechreunos hoff eos o'i phig
Y gwiriaf ragoriaeth y bêr gyllell gig.
[…]
Rhaid prynu pob cyllell a wneler o'r dur,
Ac eto nid ydynt ond cyllyll y cur,
Ond Iorwerth a Rhobin a Sioni di-ddig
A roent imi'n ddi-gost y bêr gyllell gig.

Mae cyllell gig odiaeth gan Owain, was cain,
A da gan y glanddyn ei dodi'n fy ngwain,
A mynych dan fedwen hyfrydwen dew frig
Rhydd imi saig beraidd ar flaen cyllell gig.
[…]

[82] Edward Charles, 'Dewis Bethau John Jones o Lan-y-gors, Bardd', Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), tt. 71–3, 72–73.

Mi ydwyf brydyddes, tywysoges y serch,
A Morfydd a'm gelwir, lon feinir, lân ferch;
Tra pharo'r awenydd i 'mhennydd a mhig,
Mi ganaf yn ddiell y gyllell bêr gig.[83]

Yng nghyd-destun perfformadwyedd brawdgarwch cenedlgarol, y mae'n werth tynnu sylw at nodweddion perfformiadol y gân hon. Y mae iddi arddull baledol, a defnyddir technegau naratif sy'n tynnu'r gynulleidfa i mewn ac sy'n gwahodd ymateb – gellir dychmygu'r bonllefau o chwerthin a heclo, yn enwedig wrth gyfeirio'n eironig at Morfudd, 'lân ferch', yn y pennill clo! Trwy gyfrwng ei hunangyfeiriadaeth drom, fel *The Padouca Hunt*, y mae hon yn cynnig mewnwelediad i ddeinameg fewnol a homogymdeithasaidd y Cymry Llundeinig. O ddefnyddio cyd-aelodau fel cast ar gyfer ei gân, tynnodd Iolo Morganwg ei gynulleidfa ddealledig, yn llythrennol, i mewn i'r testun ac, o ran amgylchiadau'r perfformio, y mae pwyntio bys ac amneidio at unigolion yn rhan gynhenid o hiwmor ac ergyd unrhyw berfformiad byw o destun fel hwn. Yr un cast dethol sy'n ymddangos dro ar ôl tro yn nhestunau difyrrus y canon llenyddol cymdeithasaidd, sef Iorwerth Sierlyn, Siôn Ceiriog, Robin Ddu ac Owain Myfyr. Y mae'r technegau hyn, yn ddiau, yn ffordd o ddilysu gweithgareddau cymdeithasaidd ac o chwennych cymeradwyaeth cyd-aelodau, fel y gwelir yn nheitl un o gerddi dienw'r canon: 'Englynion i Ddyn Conteiddlyd a gymeradwywyd gan Siôn Ceiriog'.[84] Y mae'r cerddi a'r testunau llenyddol, felly, yn dyst i'r alcemi personol a chreadigol rhwng aelodau'r gymdeithas â'i gilydd, ac ategir hyn gan y ffaith fod Robin Ddu a Siôn Ceiriog wedi llunio ateb yr un mor hunangyfeiriadol i'r gân, sef 'Myfyrdod Morfydd'.[85] Cerdd sy'n driw i ethos Dafydd ap Gwilym yw hon, a chyflawnir hyn drwy gyfeirio'n rhyngdestunol at yr un cyfeillion a enwyd yng nghân Iolo Morganwg. Ymhellach, y mae'n deyrnged o fath i Ddafydd ap Gwilym, oherwydd y mae'r eiddig yn rhan o'r cast hefyd a gwneir hyn oll ar ffurf y cywydd, sef y ffurf fydryddol a gysylltir â Dafydd ap Gwilym ei hun.

Ar un lefel, rhyw fath o 'lithro nôl' llencynnaidd a welir yn y ddwy gân i Morfudd. Er bod elfen homoerotig yn y penillion sy'n crybwyll aelodau rhywiol y cyfeillion, o ystyried llais benywaidd y gân, sef Morfudd, a'r cyfarchiad agoriadol i gynulleidfa ddychmygol o ferched, atgyfnerthu gwrywdod heterorywiol y Gwyneddigion a wneir yn y pen draw. Gwelir yr un amwysedd homoerotig mewn llythyr dienw at Iorwerth Sierlyn, mae'n debyg, yn gyrru chwech o 'englynion

83 Llawysgrif LlGC 21390E, eitem 23; *CIM I*, tt. 134–5. Cyfeirir yma at Edward Williams (Iorwerth), Robert Hughes (Robin), John Edwards (Sioni) ac Owen Jones (Owain). Ar gyfer y gred gyfoes fod y ffalws yn gynhenid ddeniadol i ferched, ynghyd â delweddau llenyddol cyffredinol amdano, gweler Karen Harvey, '"The Majesty of the Masculine-Form": Multiplicity and Male Bodies in Eighteenth-Century Erotica' yn Cohen a Hitchcock (goln), *English Masculinities*, tt. 198–207. Ar gyfer defnydd homogymdeithasaidd o'r ffalws yn yr Alban, gweler David Stevenson, *The Beggar's Benison: Sex Clubs of Englightenment Scotland and their Rituals* (East Linton: Tuckwell, 2001), tt. 52–63.

84 Llawysgrif BL Add. 14957, 123a–b.

85 Llawysgrif LlGC 21390E, eitem 22.

contïaidd' at dderbynydd y llythyr yn sgil 'meddwl amdanat ti (fel y byddai Serchog am ei gariad)'.[86] Yn hyn o beth, gwelir yr hyn a ddisgrifir gan George E. Haggerty fel 'complex cultural interactions that do more to "queer" the works or writers involved'.[87] Hynny yw, yn yr achos hwn, llwyddir i engodio arwahanrwydd y Cymry 'Llundeinig' ar yr un pryd â chryfhau eu hunaniaeth gymdeithasaidd unigryw. Cerddi homogymdeithasol ydynt, a gwelwn ynddynt y dyrchafedig a'r iselwael yn cydfodoli, oherwydd er adleisio is-*genre* poblogaidd y gerdd gyngor i ferched yn 'Cân Morfydd i'r Gyllell gig', y mae'r ddwy gân yn tynnu ar ymroddiad Owain Myfyr a Gwyneddigion eraill i gyhoeddi *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (1789). Yr oedd y gyfrol hon yn gyfrifol, nid yn unig am ffurfio canon Dafydd ap Gwilym a siapio ei etifeddiaeth lenyddol, ond hefyd am sefydlu ei statws fel ffigwr cwlt cenedlaethol. Ymhellach, yn ôl tystiolaeth Leathart, yr oedd Siôn Ceiriog ymhlith yr aelodau a fu'n cynorthwyo Owain Myfyr a Gwilym Dawel i baratoi'r gyfrol, sef Edward ac Owen Jones, Meredith Jones, David Samwell a Edward Jones.[88] Yn y modd y llwyddant i adleisio ffyrdd cyfoes o ddehongli gwaith Dafydd ap Gwilym, sef rhyddid rhywiol, cyntefigiaeth Rousseauaidd, a radicaliaeth weidyddol,[89] y mae'r cerddi hyn hefyd yn rhan o hanes y derbyniad beirniadol a gafodd Dafydd ap Gwilym a'i gerddi. Gwyddai'r gynulleidfa Lundeinig am enw Morfudd fel cariad anwadal Dafydd ap Gwilym ac, mae'n debyg, am gerddi coch Dafydd ap Gwilym. Er bod y cerddi cymdeithasaidd hyn i Forfudd ymhell o fod yn gampweithiau llenyddol, o safbwynt ymateb y gynulleidfa ddealledig, y tebyg yw bod cyfran deg o'r gynulleidfa Wyneddig yn gyfarwydd â'r cefndir llenyddol neu ddiwylliannol ehangach hwn, a'u bod fel cymuned ddehongliadol wedi eu cyflyru i weld haenau o ystyr ychwanegol a fyddai'n cyfoethogi eu gwerthfawrogiad a'u mwynhâd o'r cerddi hyn.

O ystyried cywair masweddus y cerddi hyn, a thestunau cymdeithasaidd eraill, gellir dadlau bod cwmni neu ofod homogymdeithasol o'r fath yn dangos beth sy'n digwydd heb fenywod yn llinyn mesur moesol. Ymhellach, y mae'r ffaith i minnau fod yn amharod i ddarllen rhai o'r penillion hyn wrth draddodi fersiwn lafar o'r ysgrif hon gerbron cynulleidfa o Gymmrodorion cyfoes yn tanlinellu'r pwynt bod cwmni cymysg yn newid deinameg unrhyw ymwneud cymdeithasol ac, yn wir, berfformiadol. A yw ffiniau gwedduster, efallai, yn amlycach mewn cwmni cymysg? Dyma, yn sir, a gredid yn y ddeunawfed ganrif pan gyhoeddwyd *The History of Women* (1779) gan William Alexander sy'n dadlau na ellid ymddiried mewn cwmni gwrywaidd, ac mai swyddogaeth naturiol menywod oedd diwyllio dynion.[90]

Gwedd anffodus ar y Cymry Llundeinig o safbwynt eu haneswyr yw eu gallu aruthrol i'w mwynhau eu hunain drwy yfed yn drwm. Nid pawb oedd yn gyfrannog o'r diwylliant potio, a sefydlwyd y Cymreigyddion ym 1795 gan Thomas Roberts,

86 Llawysgrif BL Add. 14957, 85.

87 George E. Haggerty, 'Male Love and Friendship in the Eighteenth Century', yn O'Donnell ac O'Rourke (goln), *Love, Sex, Intimacy and Friendship between Men*, t. 72.

88 Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society*, t. 20.

89 Dafydd Johnston, '*Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* 1789 a'r Chwyldro Ffrengig', *Llên Cymru*, 35 (2012), 32–53.

90 Stevenson, *Beggar's Benison*, t. 6.

Llwyn'rhudol am ei fod, ymhlith pethau eraill, yn anfodlon ag enw drwg cyffredinol y Crindy ac am nad ydoedd ychwaith yn cymeradwyo'r holl ddiota.[91] Y mae anecdotau perthnasol yn britho gohebiaeth y Cymry Llundain: diolcha Jac Glan-y-gors i Iorwerth Sierlyn am adrodd campau 'chwifio tin',[92] ac y mae awdl gan Iorwerth Sierlyn yn cynnwys troednodyn ynghylch anap un o'r aelodau: 'Rhys Roberts, hen ŵr o Langwm; yr hwn a elwid yn gyffredin, Rhys Bach, a syrthiodd i'r twb dan y baril wedi iddo feddwi.'[93] Y mae eu llenyddiaeth gymdeithasaidd ddifyrrus, felly, yn adlewyrchu'r lle amlwg a roddwyd i botio yn eu hymwneud cymdeithasol â'i gilydd.

A dychwelyd at y *Padouca Hunt*, y mae hi'n gerdd hunanddychanol, wrth gwrs, ond y mae hi hefyd yn bortread byw iawn o brif gymeriadau cymdeithasau'r Caradogion (a oedd hefyd yn Wyneddigion) ac o natur y diddanwch a fwynhâi'r aelodau. Gosododd Dafydd Ddu Feddyg naws ei *exposé* yn y pennill agoriadol: disgrifir helaethrwydd y Crindy, 'Well stored with brandy, beer, and gin', ac y mae'n siŵr y gellid beio'r cecru a'r ffromi sy'n dilyn ar helaethrwydd y ddiod feddwol. Y mae hi'n anodd barnu faint o frandi, cwrw a jin a yfwyd yn y cyfarfodydd eu hunain ond, yn sicr, yfed trwm oedd nodwedd y rhialtwch wedi'r cyfarfodydd ffurfiol. Rhydd Leathart sylw i lwncdestunau teyrngarol y Gwyneddigion.[94] Y mae Thomas Jones yn cloi ei gerddi Cymraeg a Saesneg i wledd y Gwyneddigion (15 Gorffennaf 1799) â chyfres o lwncdestunau sy'n crynhoi, nid yn unig Gymreigrwydd y gymdeithas, ond ei theyrngarwch i'r Brenin:

Yfwn oll yn eofn wŷr
'Hiroes i'n hoyw arwyr!
'Diddan a llawn dedwydd
Oes hen,
I Siôr
Ein pen
A'n pôr,
Heb wyniau pyd.'

'I'r Gymraeg em rywiawg
'Oes byd – a boed yr hyd rhawg!
I'n Cymdeithas
Eurdda urddas
Bo mwyniant
A llwyddiant,

91 'Thomas Roberts at John Roberts (Siôn Lleyn)', dim dyddiad, Llawysgrif Cwrtmawr 71E, tt. 36–7.
92 'John Jones at Edward Charles, 13 Ebrill 1811', Llawysgrif BL Add. 14957, 115.
93 Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Y Brychlyfr), t. 31.
94 Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society*, t. 18.

I gynneu â'i thes gân a thant.'
Llenwn, ac yfwn i gyd
Eto'n wych at un iechyd;
'I'n Llywydd, hoen a llawen
'Ddedwyddyd, gwynfyd teg wên!'
Llonnach bob blwydd na'r llynedd,
Llawenach, gloywach bo'n gwledd![95]

Yfir i lwyddiant arwyr Ynys Prydain a Siôr III, ynghyd â dymuno gweld y gymdeithas yn cynnal yr iaith Gymraeg a'i barddoniaeth.

Ceir nifer o ddisgrifiadau o feddwdod cymdeithasaidd a hoffter unigolion o'r ddiod. Yr oedd Dafydd Ddu Feddyg, yntau, yn adnabyddus am godi bys bach, 'very fond of the cup'.[96] Man cyfarfod poblogaidd iawn oedd y Canterbury Arms lle yr oedd Jac Glan-y-gors yn landlord. Yn 1793 lluniodd Iorwerth Sierlyn ddau englyn i Lan-y-gors 'i'w rhoddi ar y fantell uwch y tân yn ei barlwr, pan gymerodd dŷ tafarn':

Dowch feirddion, mwynion i mi, – dowch bellach,
Dowch i bwyllfarddoni;
Clir orair, clyw'r Eryri,
Pa sail, pwy yn ail i ni?

Y tyner, lân Frytanied, – cewch seigiau,
Cewch sego i'w yfed;
Cewch nectar, gwin a chlared,
Cewch ffrwd medd – rhyfedd y rhed![97]

Ymhellach, mewn llythyr o Spithead at Iorwerth Sierlyn ddechrau 1794 gofynnodd Dafydd Ddu Feddyg iddo, 'What is Glan y Gors about? Do the Bards & others drink plenty of his ale?'[98] Ac yntau'n gymdeithaswr diddan a phenigamp, dethlir diota mewn awdl ffug-orchestol a ganodd Iorwerth Sierlyn ar achlysur 'Gwynosa' (swpera) yn y Canterbury Arms 15 Ebrill 1796:

Seigiau, ar y dysglau dewisglod;
Seigiau, er y borau, oedd barod;
Seigiau, rhannau mor hynod, – a chlau
Seigiau, ryw foddau ryfeddod.
[…]

95 Thomas Jones, *At Gymdeithas y Gwyneddigion, Yr Awdl i'ch Gwlêdd Flynyddawl […]* (London, [1799]), tt. 8, 10. Yn Llawysgrif LlGC Mellon 588 ceir fersiwn o gerdd Thomas Jones sy'n cynnwys cerdd fer gan Edward Charles ar yr un achlysur.

96 Bowen, *David Samwell*, t. 65.

97 Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), f. 28.

98 'David Samwell at Edward Charles, 4 Ionawr 1794', Llawysgrif BL Add. 14957, 54a.

Ffrydiodd, dwys bygodd ysbigod;
Ffrydiodd, fe ddeuodd llyn o ddiod;
Ffrydiodd, na welodd neb waelod, – ryw fodd
Ffrydiodd, ac a foddodd ryfeddod.

Cyhoeddi, a henwi'r wledd hynod;
Cyhoeddi, rhai'n gweiddi mewn gwaddod;
Cyhoeddi, brandi'n ddibrindod, – llenwi
Cyhoeddi, cyn codi bob ceudod.[99]

Er iddo gopïo 'Cywydd yn erbyn meddwdod' gan Edward Morris, Perthillwydion i'r Brychlyfr, y mae diota yn thema amlwg yng ngwaith Iorwerth Sierlyn.[100] Lluniodd ysgrif ddychanol sy'n dathlu diota ac, unwaith eto, y mae'n enghraifft wiw o'r math o lenyddiaeth hunangyfeiriadol a ffraeth a dyfodd allan o homogymdeithasedd y Cymry Llundeinig. Y mae'r teitl yn dweud y cyfan ac yn ymhyfrydu yn arwyddocâd meddwdod fel camp wrywaidd: 'Mannau [Bannau] ffydd Bacws. I'w darllen ddiwedd y nos mewn ffair a gwylmabsant, ac amserau a mannau eraill y gwelo'r Bacwsiaid yn angenrheidiol. *The Bachanalian Creed*.' Yn y cyfnod modern cynnar, yr oedd Bacws, duw gwin Rhufeinig, yn cynrychioli rhinweddau mwynaidd yr winwydden a'r rhwymau cymdeithasaidd a ffurfid wrth yfed yn drwm. Gan hynny, y mae Bacws yn ymddangos mewn llenyddiaeth *libertine* a chymdeithasaidd Saesneg y cyfnod hefyd, gan gynnwys llenyddiaeth a gysylltir â chlybiau a chymdeithasau megis y Mohocks a'r Hell-fire Club.[101]

O ran ffurf a chynnwys, *pastiche* o athrawiaeth drindodaidd Credo Athanasiws yw'r ysgrif: Bacws yw'r duw a addolir, a'r drindod sanctaidd a ategir yw'r gasgen gwrw, yr ysbigod (peg ar gyfer twll aer y gasgen), a'r ffawset (sef y tap). Y mae'n werth dyfynnu talp helaeth o'r ysgrif er mwyn gwerthfawrogi'r modd y mae'n dyrchafu'r ddiod feddal a phleserau meddwdod:

> Pwy bynnag a fynno fod yn Gyfaill i Bacws, o flaen pob dim, rhaid iddo gynnal y ffydd hon.
>
> Yr hon ffydd onis ceidw'r Bacwsiaid yn gyfan a dihalog, diamau y byddant hwy yn sychedig yn dragywydd.
>
> A'r ffydd Facwsaidd yw hon, bod inni addoli un baril yn dri dyblyg, a'r tri dyblyg yn undod.

99 Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), 29–32, 29–30.

100 Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), tt. 58–66.

101 Gweler Charles Darby, *Bacchanalia: or A Description of a Drunken Club* (1680), lle cofnodir ymddygiad treisgar y Mohocks dan ddylanwad 'Potent Bacchus', a cherdd i'r Hell-fire Club sy'n cyfeirio at wleddoedd Bacanalaidd, Allen, *The Clubs of Augustan London*, tt. 26, 109, 120. Ceir detholiad o destunau Saesneg yn ymwneud â Bacws, gan gynnwys testunau o'r ddeunawfed ganrif sy'n dyrchafu'r ddiod feddwol a diota, yn Rowland Watson, *Merry Gentlemen: A Bacchanalian Scrapbook* (London, 1951), tt. 13–47.

Nis rhoddi anwir i'r baril na gwahanu'r sylwedd.

Canys un baril iawn y sydd; ac arall sbigod iawn y sydd.

Eithr teilyngdod y baril, y ffawsed, a'r sbigod sydd unrhyw: gogoniant gogufwch [?gogyfuwch] â Mawrhydi, Person a Chlochydd.

Unrhyw yw'r baril, unrhyw yw'r ffawsed, unrhyw yw'r sbigod lân.
[…]
Felly'r baril sydd gylchog, y ffawsed yn dyllog, a'r sbigod lân yn drwynfain.

Ac eto nid ydynt dri o brennau, namyn un pren.

Canys fel i'n cymhellir trwy'r ffydd hon i gyfaddef bod un baril mawr ohono ei hun yn eilunaddoliaeth holl Facwsiaid Lloeger, Berwic-ar-Dweed, a Thwysogaeth Cymru.
[…]
Pwy bynnag, gan hynny, a fynna gael llond bol o gwrw, synied felly o'r triphlyg.

Y mae hefyd yn angenrheidiol er mwyn tragwyddol feddwdod, gredu o ddyn yn ffyddlon i'r baril, yn enw'r ffawsed, a sbigod, a'r cwrw hefyd.

Canys yr iawn ffydd yw credu a chyffesu ohonom fod bariled o gwrw yn ddigonol i bob dyn.

Baril o sylwedd y pren, wedi ei wneuthur cyn ein hoesoedd ni; a dyn o sylwedd ei fam wedi eni i'r byd i yfed cwrw ohono.
[…]
Canys fel mae'r baril rhesymol yn un â'r cylchau; felly hefyd mae'r ffawsed a'r sbigod yn un â'r baril.

Yr hwn a ddioddefodd ei gernodio gan y cowper drostom ni, ac a ddisgynnodd i'r seler, ac mewn tridiau fo atgyfodd ar ei dalcen, o blith y meddw-feirwon oedd yn lliaws o'i amgylch ef yno.

Esgynnodd i'r darllawdy [h.y. bracdy], ac yno mae'n eistedd ar ddeheulaw'r gerwyn [*mash-vat*] anfeidrol; ac oddi yno daw eilwaith i'r seler, i roddi barn a chyfiawnder i bawb a fyddo ger ei fron.

Ac ar ei ddyfodiad y cyfyd yr holl Facwsiaid yn eu hystum eu hunain, ac a roddant gyfrif am eu gweithredoedd priod.

A rhai a yfasant yn helaeth, fel nad allant ymlwybro, a gânt orwedd

> ar wely gwellt i gyd efo ei gilydd yn gariadus; a rhai a yfasant ychydig, fel y gallant ymlwybro, a ddanfonir adref yn barchus a gorfoleddus.
>
> Hon yw'r ffydd Facwsaidd; yr hon pwy bynnag a'r ni's creto'n ffyddlon, nid all e fod yn Gyfaill i Facws.
>
> Gogoniant i'r baril, ac i'r ffawsed, ac i'r sbigod lân.
>
> Megis yr oeddynt yn y dechrau, maent yr awr hon, a gobeithio y byddant yn wastad ac yn oes oesoedd, Amen.[102]

Yn y gyfeiriadaeth glasurol at Bacws, yn y defnydd cableddus o'r credo, ac yn yr agwedd digywilydd o ofer, y mae 'Mannau Ffydd Bacws' nid yn unig yn tynnu ar ddelweddau a syniadau stoc am Bacws, ond hefyd yn defnyddio'r themâu a throeon ymadrodd stoc i berfformio'r math o ddifyrrwch homogymdeithasaidd a nodweddai'r cymdeithasau Seisnig drwgenwog fel yr Hell-fire Club, y Kit-Cat Club, a'r Beggar's Benison. Yn hyn o beth, y mae un ymadrodd yn yr ysgrif, uchod, yn arddel brawdoliaeth ehangach na chymdeithasau Cymry Llundain, sef '[…] eilunaddoliaeth holl Facwsiaid Lloeger, Berwic-ar-Dweed, a Thwysogaeth Cymru'. O gofio hefyd bod Dafydd Ddu Feddyg yn uniaethu'r Caradogion â'r Robin Hood Society yn *The Padouca Hunt*, tybed a yw'r sôn am 'holl Facwsiaid Lloeger, Berwic-ar-Dweed, a Thwysogaeth Cymru' yn dadlennu ymwybyddiaeth fod y cymdeithasau Cymreig yn perfformio brawdgarwch a homogymdeithasedd yn yr un modd â chymdeithasau dinesig eraill Prydain Fawr? Gwelwyd eisoes, wrth gyd-destunoli'r cymdeithasau Cymraeg yn Llundain, bod Cymry'r ddinas yn aelodau o gymdeithasau cymdeithasol, proffesiynol, a radicalaidd eraill. A barnu oddi wrth dystiolaeth y llenyddiaeth gymdeithasaidd, ymddengys bod aelodau cymdeithasau Cymru Llundain yn ymuniaethu â brawdgarwch ehangach, gan gynnwys brawdoliaeth y Seiri Rhyddion.

Y mae'r Seiri Rhyddion yn rhan o'r cyd-destun cymdeithasaidd Ymoleuedig, ac yn dyst i'r amrywiaeth a berfformid o fewn diwylliant cymdeithasaidd ym Mhrydain.[103] Cafodd nodweddion saernïaidd yn nefodaeth Orseddol Iolo Morganwg gryn sylw.[104] Y mae un o ysgrifau cymdeithasaidd Iorwerth Sierlyn hefyd yn awgrymu cyswllt cryf â'r Seiri Rhyddion, sef 'Proffwydoliaeth Iorwerth Sierlyn am Siôn Ceiriog'. Ffug-deyrnged eironig yw'r ysgrif hon sy'n mynegi gormodiaith wrth ddychmygu marwolaeth Siôn Ceiriog, a hynny rhyw flwyddyn neu ddwy cyn i hwnnw farw yn 1792 yn 43 oed:

102 Edward Charles, 'Mannau Ffydd Bacws […] *The Bacchanalian Creed*', Llawsgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), tt. 116–24.

103 Ceir astudiaeth achos ar y Seiri Rhyddion yn Clark, *British Clubs and Societies*, tt. 309–49.

104 Geraint H. Jenkins, 'Iolo Morganwg and the Gorsedd of the Bards of the Isle of Britain', *Studia Celtica Japonica*, 7 (1995), 365–86; Andrew Prescott, 'Iolo Morganwg and Freemasonry', <*http://www.freemasons-freemasonry.com/prescott10.html*> [cyrchwyd 6 Ionawr 2020]; Charnell-White, 'Perfformio Cenedl y Dychymyg', t. 127; Charnell-White, *Bardic Circles*, tt. 3, 8, 23, 74.

> Pan ddarfyddo am yr hynod Siôn Ceiriog, distewi wna holl erddiganau'r byd; mwyach ni chlywir sŵn cerddoriaeth peroraidd, na'r hyfrydlais delyn; o achos bydd yn llawn bryd crogi'r holl delynau ar gangau anobaith […] oherwydd darfod am fardd lawer amgenach na Davydd ab Gwilym […][105]

Unwaith eto, y mae cyfeiriadaeth lenyddol y darn yn adlewyrchu pwysigrwydd diwylliannol Dafydd ap Gwilym i'r Cymry Llundeinig, a chysylltir Siôn Ceiriog, y carwr diarhebol, â Dafydd ap Gwilym, fel yn y cerddi coch sy'n taflunio llais Morfudd. Ceir hefyd adleisiau penodol iawn o ddefodaeth y Seiri Rhyddion wrth i Iorwerth Sierlyn ddychymygu sut y dylid trin corff celain y Ceiriog:

> Canys ei gorff ef a wisgir mewn gwisg o saffir, a'r wisg honno wedi ei cherfio gan ddynion ail i'r rhai a gerfiodd Demel Selyf, ac a'i gosodir yn faner dragwyddol, o genhedlaeth i genhedlaeth mewn Tabernacl, wedi ei adeiladu â pherlau dewisedig, trwy forter o aur *Hispaniola*, gan Seiri â thrywelau arian; a chwedi hynny, coronir ef â choron o emerald, a rhoddir yn ei law ddehau, lech o ddiemwnt, ac ar y llech honno yn gerfiedig, lun pob offeryn cerdd er amser Tubal hyd y munud hwn.[106]

Y mae'n bosib fod yr olygfa ddychmygol hon yn adleisio gosod corff prif adeiladwr y Seiri Rhyddion, Hiram Abiff, i orffwys, ond y mae'r delweddau eraill a ddefnyddir yn symbolau diamwys o frawdoliaeth y Seiri Rhyddion, sef Teml Solomon, y Tabernacl, trywelau arian, a'r Tubal.

I Seiri Rhyddion, yr oedd Teml goll Solomon, a adeiladwyd gan Hiram, yn batrwm ar gyfer cyfrinfeydd ac yn symbol o unoliaeth, sef doethineb Solomon, grym Hiram, a chrefftwaith Hiram.[107] Yr oedd y Seiri Rhyddion yn un o obsesiynau cyfnod yr Ymoleuo ac fe goleddai'r brodyr nifer o syniadau Ymoleuedig cyfoes a oedd ymhlyg yn y wleidyddiaeth radical a bleidiwyd gan nifer o'r Cymry Llundeinig yn dilyn y Chwyldro Ffrengig: rhyddid, cydraddoldeb a brawdgarwch.[108] Yr oedd y trywel, yntau, hefyd yn symbol o unoliaeth, yn ogystal â brawdgarwch saernïaidd.[109] A oedd Iorwerth Sierlyn, felly, yn benthyg delweddau saernïaidd i fynegi brawdgarwch y Cymry Llundain, neu ynteu'n defnyddio'r delweddau'n fwriadol i atgyfnerthu rhwymau brawdgarol a oedd yn cwmpasu cymdeithasau

105 Edward Charles, 'Proffwydoliaeth Iorwerth Sierlyn am Siôn Ceiriog', Llawysgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), tt. 208–213, t. 208. Lluniodd Iorwerth Sierlyn a Jac Glan-y-gors englynion didwyll yn galaru am Siôn Ceiriog, Llawysgrif LlGC 4582C, t. v (recto). Gweler hefyd feddargraff Dafydd Ddu Feddyg iddo, Llawysgrif BL Add. 14957, 119.

106 Llawsgrif Caerdydd 3.116 (Brychlyfr), tt. 209–10.

107 James Stevens Curl, *Freemasonry and the Enlightenment: Architecture, Symbols, and Influences* (London: Historical Publications, 2011), tt. 12, 93–6.

108 Wilson, *Encyclopedia of the Enlightenment*, t. 153.

109 Curl, *Freemasonry & the Enlightenment*, tt. 45–6, 321.

Cymry Llundain a'r Seiri Rhyddion? Er eu bod yn gerbyd ar gyfer cymdeithasgarwch dosbarth canol, erbyn canol y ddeunawfed ganrif yr oedd gan Seiri Rhyddion Prydain enw am gynnal y math o gymdeithasgarwch tafarn a oedd yn nodweddiadol o gymdeithasau a chlybiau, gan gynnwys diota trwm. Cyhuddid hwy o anffyddiaeth, homorywioldeb ac alcoholiaeth, ond rhagfarnau eithafol yn wyneb agwedd amheugar at elfen gyfrin eu brawdoliaeth oedd y rhain.[110] Yn sgil arwyddocâd Teml Solomon a lle canolog y deml yn nelweddaeth a defodaeth y Seiri Rhyddion, ynghyd ag enw Siôn Ceiriog fel cerddor, tybed a allai'r cyferiad olaf at Tubal Cain, un o gyfrineiriau'r Seiri Rhyddion a'r crefftwr cyntaf i weithio pres ac efydd,[111] awgrymu bod Siôn Ceiriog yn un o frodyr cyfrinfa Lundeinig yn ogystal â'r Crindy? Gwyddys bod y Canorion yn cwrdd yn y Fressmason's Tavern.[112] Yn sicr, y mae lle i ymchwilio ymhellach i hyd a lled dylanwad posibl defodaeth y Seiri Rhyddion ar yr ysgrif hon o waith Iorwerth Sierlyn, yn ogystal â chysylltiadau Siôn Ceiriog, Iorwerth Sierlyn, Iolo Morganwg, ac eraill, â'r frawdoliaeth neilltuol hon.

*Casgliadau*

Archwiliwyd yn yr ysgrif hon lenyddiaeth gymdeithasaidd ddifyrrus cymdeithasau Cymry Llundain – a'r Gwyneddigion yn anad neb arall – gan roi sylw arbennig i'r modd y mae'n perfformio brawdgarwch cenedlgarol ei hawduron a'i chynulleidfa ddealledig. Yn wir, nid taflu goleuni ar ddeinameg eu cyfarfodydd yn unig a wna natur hunangyfeiriadol chwareus y rhan fwyaf o'r testunau yn y canon cymdeithasaidd; dengys fod y llenyddiaeth ddifyrrus hon yn porthi brawdgarwch aelodau yn ogystal â pherfformio'r brawdgarwch hwnnw. Yr oedd y canon cymdeithasaidd yn perthyn i gyfnod o ddatblygiad yn y sffêr gyhoeddus, ac o ystyried hynny y mae modd dadlau ei fod hefyd yn tystio i ffiniau ansefydlog y sfferau preifat a chyhoeddus. O drafod homogymdeithasedd a deinameg Gymreig-Lundeinig hunaniaeth Cymry Llundain, dangoswyd mor amlhaenog oedd y brawdgarwch cenedlgarol a berfformir yn eu llenyddiaeth, a bod cryn orgyffwrdd i'w weld rhwng y diwylliant preifat 'anghymeradwy' a'r diwylliant cyhoeddus 'cymeradwy': 'conviviality', meddai Bethan M. Jenkins wrth bennu gwerth gwahanol agweddau ar hunaniaeth y Cymry Llundain, 'is as legitimate a version of Welshness as antiquarianism'.[113] Ie, barddoniaeth a rhyddiaith i'w perfformio gerbron cwmni dethol a thu ôl i ddrysau caeedig y clwb neu'r gymdeithas yw'r testunau a drafodwyd, uchod, ond y mae'r ffaith eu bod wedi goroesi o gwbl yn dangos bod perchnogion y llawysgrifau yn prisio'r llenyddiaeth gymdeithasaidd ac yn ei hystyried yn werth ei chofnodi ar gyfer yr oesoedd a ddelai. Y mae Iorwerth Sierlyn yn astudiaeth achos perthnasol yn hyn o beth, oherwydd heb ei ymdrechion

110 McCalman (gol.), *Oxford Companion to the Romantic Age*, t. 513; Wilson, *Encyclopedia of the Enlightenment*, t. 155.

111 Curl, *Freemasonry and the Enlightenment*, tt. 107, 321.

112 Leathart, *The Origins and Progress of the Gwyneddigion Society*, t. 56.

113 Jenkins, *Between Wales and England*, t. 171.

diflino ef yn cyfansoddi a chofnodi cymaint o'r deunydd cymdeithasaidd a drafodwyd yma, prin y gellid sôn am 'ganon cymdeithasaidd' o gwbl. Y mae'r sylwadau sy'n britho 'Brychlyfr' Iorwerth Sierlyn yn tystio'n hyglyw i'r ffaith ei fod yn gwbl ymwybodol o botensial neu werth cyhoeddus y deunydd yr oedd yn gyfrifol am ei ddiogelu. Ymhellach, y mae ei gynulleidfa – ei 'frodyr mewn hyfrydwch' ynghyd â darllenwyr posibl yn y dyfodol – yn bresenoldeb cyson yn y Brychlyfr. Y mae'n eu cyfarch yn barhaus wrth nodi pryd y copïodd destunau penodol i'r llawysgrif ac wrth gyd-destunoli cymeriadau a digwyddiadau sy'n rhan o wead y testunau hynny. Mewn cyffyrddiad sy'n nodweddiadol o lawenydd cymdeithasaidd y Cymry Llundain, y mae Iorwerth Sierlyn hyd yn oed yn canu'n iach i'w gynulleidfa wrth ddod â'r llawysgrif i fwcwl:

> Gorffennais ysgrifennu'r Llyfr hwn ar y 12fed dydd o fis Medi 1799
> a hynny yn no. 2 Basinghall Street Llundain.
>
> Da bo chwi,
> Edward Charles.

Fel llenyddiaeth y cymdeithasau Seisnig yn Llundain a'r tu hwnt, a llenyddiaeth ddifyrrus Morrisiaid Môn, y mae'r llenyddiaeth gymdeithasaidd hon yn haeddu mwy o sylw academaidd ac, yn sicr, mwy o gydnabyddiaeth. Y cyd-destun cymdeithasaidd sy'n rhoi unoliaeth iddi ac, yn sgil cwlwm tyn ei themâu a'i hawduron, ei natur hunangyfeiriadol a rhyngdestunol, a'i chonfensiynau llenyddol chwareus, gellir sôn yn ystyrlon am ganon llenyddol cymdeithasaidd Cymreig. Yn wir, da o beth fyddai cyhoeddi detholiad o ddeunydd cymdeithasaidd y Cymry Llundain mewn un gyfrol, er mwyn caniatáu i gynulleidfa gyfoes ddarllen drosti ei hun y parhâd, yr amrywiaeth, a'r themâu homogymdeithasol cyffredin sy'n llechu dan syberwyd Ymoleuedig y dynion dosbarth canol a fu mor gydwybodol wrth warchod eu Cymreigrwydd.